



# CATALOG PEN-BLWYDD



Llyfrau dros Gymru  
[www.ylolfa.com](http://www.ylolfa.com)







# dathlu'r 50

Croeso i gatalog Pen-blwydd Aur Y Lolfa!


Anodd credu ein bod ni wedi bwrw'r canol oed fel gwasg, a ninnau wastad wedi arddel ein gwreiddiau yng nghyffro a phrotest yr ifanc yn y Chwedegau. Ond mae'n achos dathlu, wrth gwrs, os llwyddon ni i gynnal y weledigaeth wreiddiol gan barhau i gynhyrchu mwy a mwy o lyfrau mentrus, cyffrous, Cymreig eu hagwedd.

Ein llyfr cyntaf oedd *Hyfryd Iawn* gan Eirwyn Pontshân, a osododd y safon mewn hiwmor a gwreiddioldeb ac annibyniaeth barn. Erbyn hyn, gyda 700 o awduron ar ein llyfrau, mae ein rhestr wedi ymestyn i gynnwys llenyddiaeth gyfoes, cofiannau, llyfrau am chwaraeon a hanes, llyfrau i ddysgwyr, a chyfres athronyddol hyd yn oed. Mae ein cyfresi gwreiddiol i blant hefyd yn bwysig i ni: ni yw'r unig wasg sydd yn gwrthod addasu llyfrau o'r Saesneg, nid yn unig er mwyn y plant, ond er mwyn cefnogi swyddi awduron, artistiaid a dylunwyr yn ein broydd.

Tra ry'n ni'n falch o'n hanner canrif o gyhoeddi bywiog, ry'n ni hefyd yn falch o'n llwyddiant fel cwmni masnachol, ac o allu cyflogi'r staff talentog sydd wedi sicrhau'r llwyddiant.

Ein stondin steddod

Tra byddwch, efallai, yn synnu at gyfoeth y dewis o lyfrau yn y catalog yma – cofiwch nad yw'n gyflawn! Dim ond cynnyrch y pum mlynedd diwethaf, yn fras, sydd yma, gydag ambell i werthwr hŷn. Am restr lawn o deitlau, awduron, a gwybodaeth arall, ewch i mewn i'n gwefan newydd, cyfeillgar: [www.ylolfa.com](http://www.ylolfa.com). Dilynwch ni hefyd ar Trydar a Facebook a'r cyfryngau cymdeithasol i gael newyddion diweddaraf y cwmni, lansiadau ac yn y blaen.



*Hyfryd Iawn* gan Eirwyn Pontshân, ein llyfr cyntaf

A gwleidyddiaeth Llundain yn troi yn fwy a mwy o bantomeim, mae meithrin safbwyntiau a syniadau annibynnol a Chymreig yn bwysicach nag erioed. Rydym yn gobeithio ein bod yn parhau, fel cwmni, i gyfrannu at y dasg yna. I gael Cymru Rydd gwerth ei chael, rhaid i ni yn gyntaf greu Cymry sy'n feddyliol rydd.



Y Lolfa Cyf., Talybont, Ceredigion SY24 5HE  
e-bost [ylolfa@ylolfa.com](mailto:ylolfa@ylolfa.com)  
gwefan [www.ylolfa.com](http://www.ylolfa.com)  
ffôn 01970 832 304  
ffacs 832 782



# gwasanaeth argraffu

Rhowch gynnig i ni â'ch gwaith argraffu!

O'r dechrau un, fe benderfynon ni argraffu ein llyfrau ein hunain yma yn Nhalybont ac erbyn hyn mae gynnon ni hanner canrif o brofiad o'r grefft, a'r offer diweddaraf, sy'n cynnwys gweisg litho Komori 5-lliw a 2-liw B2, a gwasg Xerox ddigidol yn ogystal ag offer rhwymo a gorffen.

Casglu adrannau ar gyfer rhwymo

Rydym yn gyfarwydd â'r holl brif raglenni MAC a PC ac yn

argraffu ar gyfer cwmnïau a mudiadau ledled Cymru. Yn gwmni digon mawr i allu wneud y gwaith, ond yn ddigon bach i boeni am y manylion, rydym yn ymfalchïo yn ein gwasanaeth safonol, cyflym a chyfeillgar – sy'n cynnwys cludiad am ddim. Holwch Paul Williams, ein Rheolwr Cynhyrchu, am bris.

am bris argraffu  
e-bostiwrch  
[paul@yloffa.com](mailto:paul@yloffa.com)  
neu ffonio Paul ar  
01970 831 901



Paul Williams, ein Rheolwr Cynhyrchu

## MASNACHOL

**Siopau llyfrau:** dosberthir ein llyfrau gan Y Ganolfan Ddosbarthu, Cyngor Llyfrau Cymru, Uned 16, Parc Menter Glanrafon, Llanbadarn, Aberystwyth, Ceredigion SY23 3AQ (01970 624 455) ac y tu allan i Gymru gan Gardners Books ar [www.gardners.com](http://www.gardners.com).

**Beth am gael troellwr Y Lolfa yn eich siop neu sefydliad?**  
Holwch Garmon Gruffudd am fanylion troellwyr ac offer arddangos: [garmon@yloffa.com](mailto:garmon@yloffa.com) / 01970 831 902.

## CYNNWYS

### OEDOLION

4	amrywiol
5	athronyddol
5	bwrdd coffi
7	cerddoriaeth
8	cofiannol
11	ffuglen
16	hanes
18	stori sydyn
19	nwyddau

### PLANT

20	dan 7 oed
28	7 > 14 oed
32	oedolion ifanc

## gwefan

Cofiwch mai dim ond ar ein gwefan y cewch chi restr gyflawn o'n holl lyfrau mewn print. Rydym wedi ail-ddylunio'r wefan fel y gallwch ei ddefnyddio'n hwylus o unrhyw ddyfais neu ffôn. Gallwch chwilio am lyfrau (ac e-lyfrau) fesul teitl ac awdur, ac archebu ar-lein. Mae post yn rhad ac am ddim ar bob archeb dros £10 – ond cefnogwch eich siop leol os gallwch chi. Mae yna hefyd gyfeiriadur llawn o sefydliadau Cymreig, gwybodaeth am ein gwasanaeth argraffu, ac ar sut i gyflwyno gwaith ar gyfer cyhoeddi, ymysg pethau eraill. Mae'r wefan, sydd ar [www.yloffa.com](http://www.yloffa.com) hefyd yn cysylltu â'n cyfrifon Trydar, Facebook ac Instagram, a'n blog fel cwmni.





## Davies, Keith

### Rygbî'r Byd

Llyfr llawn ffotograffau lliw a ffeithiau am rygbi Cymru a rygbi'r byd.

£4.95 9781784611736

## Gibbard, Alun & Morris, Dewi Pws

### Straeon Tafarn

Llyfr sy'n dilyn Dewi 'Pws' Morris a'r gyfres boblogaidd *Straeon Tafarn* ar S4C ar ei thaith o gwmpas rhai o dafarnau mwyaf diddorol Cymru; cawn glywed hanesion dwys a difyr rhai o'r cymeriadau ar y ffordd.

£7.95 9781847715180

## Griffiths, Alaw (gol.)

### Gyrru Drwy Storum

Cyfrwl arloesol sy'n ymdrin â iechyd meddwl. Cawn hanes 11 o bobl sydd wedi cael eu heffeithio, yn eu geiriau eu hunain ac yn ddiflwyn ar dafod, mewn cerddi, llythyrau, dyddiaduron ac ysgrifau. Mae'r profiadau'n ddirddynol ond maent yn dangos bod modd gwella a bod yn llawn gobaiith.

£6.95 9781784611439

## Gruffudd, Ffion Heledd (gol.)

### Gwnewch y Pethau Bychain

Canllaw yn cynnig amryw ffyrdd o gefnogi a chynyddu defnydd y Gymraeg. O gefnogi busnesau Cymraeg i drydar neu ddechrau sgysiau yn Gymraeg, mae'r gyfrol yma yn llawn cynghorion pwrpasol.

£3.95 9781847719027

## Gruffydd, Heulwen

### Gwres y Gegin

190 o ryseitiau syml i gogyddion cartref gan seren Radio Cymru. Rhannwyd yn benodau sy'n cynnwys cig, pysgod, prydau llysieuol, a blas y Nadolig. Gyda'i ddiwyg deniadol a chyfarwyddiadau syml, dyma adnodd gwerthfawr i unrhyw gegin Gymreig.

£19.95 9781847713988

## Gruffudd, Robat

### A Gymri di Gymru?

Dros drigain o gerddi syml, swynol, dwys a doniol am Gymru ac am fywyd.

£5.95 9781847711182

## Gwawr, Elliw

### Paned a Chacen

Cacennau, bisgedi a phwdinau – llyfr ryseitiau hyfryd llawn lliw sy'n dangos talent a dant melys y gogyddes ifanc Elliw Gwawr ar ei gorau. Mae'n barhad o'i blog poblogaidd o'r un enw (<http://panedachacen.wordpress.com/>). Credir mai hwn yw'r llyfr coginio Cymraeg cyntaf yn benodol am bobî.

£14.95 9781847715258

## Gwawr, Elliw

### Pobi

Yn dilyn llwyddiant *Paned a Chacen*, dyma ail lyfr coginio Elliw Gwawr. Mae'n estyniad o'i blog ac yn llawn cynghorion difyr yn ogystal â ryseitiau i dynnu dŵr o'r dannedd. Cyflwynir y cyfan mewn dull hwyliog a chartrefol gan adlewyrchu personoliaeth heintus a brwdfrydig Elliw.

£14.95 9781847719256

## Hartley, Tim (gol.)

### Merci Cymru – Dathlu Haf Bythgofiadwy 2016

Casgliad o ysgrifau a lluniau i ddathlu a

chofnodi llwyddiant tîm pêl-droed Cymru ym mhencampwriaeth Ewro 2016, yn cynnwys cyfraniadau gan gefnogwyr, sylwebwyr a rhai o arbenigwyr y gêm, gan gynnwys Dylan Ebenezer a Laura McAllister. 53 llun lliw.

£7.99 9781784613518

## James, Meleri Wyn (gol.)

### Mwy o Sgymraeg

Dyma lyfr hiwmor sy'n arddangos yr esiamplau gorau – a gwaethaf – o arwyddion ag arnynt Gymraeg sâl, gyda chyflwyniad a jôcs bachog gan y comediwr poblogaidd Tudur Owen.

£3.95 9781847717207

## Jones, Gwynfor

### Y Crysau Cochion

O Mark Aizlewood i Eric Young, dyma lyfr cynhwysfawr yn nodi manylion pob chwaraewr sydd wedi derbyn cap i Gymru yn ystod y 70 mlynedd diwethaf; gydag ystadegau cyflawn yn ogystal â storiâu lliwgar am lawer o'r chwaraewyr, yn cynnwys sêr Cymru Ewro 2016. Llyfr hanfodol i bob cefnogwr pêl-droed ac anrheg perffaith.

£14.99 9781784613303

## Maelor, Eyllt (gol.)

### Galar a Fi

Cyfrwl sydd yn trafod pwnc nad oes iddo ddigon o drafod yn gyhoeddus: galar. Ceir yma brofiadau pobl sydd wedi colli anwyliaid – brawd, cwaer, cymar, ffrind neu riant – ond nid hanes bywyd y bobl sydd yma, ond cofnod o'r emosiynau ynghlwm wrth yr ymdrech i ddygymod.

£7.99 9781784614133



## Owen, Huw Dylan

### Sesiwn yng Nghymru

Cyfrwl o ysgrifau ar y byd sesiynau gwerin yng Nghymru. Llyfr hwyliog ac unigryw ei naws gelfyddydol na chyhoeddwyd ei fath yn y Gymraeg o'r blaen.

£9.95 9781784611255

## Owens, Wyn

### Rhint y Gelaets a'r Grug – Tafodiaith Sir Benfro

Geiriadur swmpus o eiriau tafodieithol sir Benfro, de Ceredigion a Gogledd Sir Gâr: yr iaith ryfeddol o gyfoethog a ddefnyddiwyd gan Dewi Emrys yn ei gampwaith, 'Pwlllder'.

£9.95 9781847716842

## Prysor, Dewi

### Ibuprofen S'il Vous Plaît – Mwy na stori bêl-droed

Cyfrwl ddoniol yn cofnodi teithiau ac argyfyngau Dewi Prysor wrth ddilyn tîm pêl-droed Cymru yn ystod haf 2016: hanes y gêm, yr angerdd a'r emosiwn, ynghyd â myfyrdodau llawn ffraethineb a digrifwch am ddigwyddiadau a chymeriadau'r daith fythgofiadwy. Cyfrwl allweddol i bawb sy'n hoff o hiwmor ac athroniaeth...

£9.99 9781784613525



Dewi Prysor gydag *Ibuprofen s'il vous plaît*

## Pws, Dewi

### Popeth Pws

Cyfrwl o bopeth Dewi Pws: caneuon, cerddi i blant, cerddi dwl, cerddi difrifol, jôcs, straeon a lluniau.

£9.99 9781784611682

## Rowlands, Dylan & Llinos

### Bwyd a Gwin Dylanwad Da

Cyfrwl ddeniadol yn llawn ryseitiau a gwybodaeth am win, gyda llun lliw i bob rysâit, yn ogystal ag awgrym o win i gyd-fynd â'r bwyd. Ceir hefyd hanes teithiau Dylan yn ymweld â gwinllannoedd ledled Ewrop. Cynhwyswyd bwyty Dylan a Llinos, Dylanwad Da yn *Nolgellau yn The Good Food Guide* bob blwyddyn er 1990.

£14.95 9781847717191

## Thomas, Gwyn

### Ymarfer Ysgrifennu Cymraeg

Adnodd pwysig a phoblogaidd gan athrawon ysgolion uwchradd, myfyrwyr a chyfieithwyr ers degawdau – a phawb sydd am wella'u Cymraeg ysgrifenedig.

£8.99 9781847715708


## Wynne, Goronwy

### Blodau Cymru – Cyflwyno Byd y Planhigion

Dyma gyflwyniad i blanhigion Cymru ynghyd a'u cynefinoedd, ecoleg y planhigion, eu hanes â'u nodweddion. Ceir pennod ar bob un o hen siroedd Cymru – eu nodweddion a'u blodau arbennig; a rhoddir arweiniad clir ar sut i fynd ati i ddyysgu mwy ac i fwynhau'r blodau.

£39.99

9781784614249



# athronyddol

*Cyfres Astudiaethau Athronyddol: cyfres arloesol yn trafod pynciau athronyddol trwy'r Gymraeg*

**Davies, Noel A**

## **Moeseq Gristnogol Gyfoes**

Cyfrwl sy'n cyflwyno sylfeini moeseq Gristnogol gan eu pwysu a'u mesur yn erbyn safbwyntiau cyfoes ar yr amgylchedd, datblygiadau meddygol a genetidd, a byd economeg a masnach.

**£6.95** 9781847716576

**Jones, Pryderi Llwyd**

## **Ffiniau ac Arfordir Ffydd**

Croesi ffiniau'r ffydd Gristnogol yw'r testun gan drafod ymwrthod â therfynau o bob math. Canolbwytir yn bennaf ar Gymuned Iona a sefydlwyd yn 1938, sydd yn ôl yr awdur, yn cynnig arweiniad a her i'r eglwysi yma yng Nghymru.

**£3.95** 9781847718112

**Matthews, E Gwynn (gol.)**

## **Cred, Llên a Diwylliant**

Cyfrwl o ysgrifau teyrnged i'r diweddar Athro Dewi Z Phillips gan gyfeillion a chydweithwyr. Dywed Dr Meredydd Evans am Dewi: 'mi sefydlodd ei hun fel athronydd o bwys cydwladol'. Yr oedd hefyd yn frwd dros athronyddu yn yr iaith Gymraeg. Y gyntaf yn y gyfres *Astudiaethau Athronyddol*.

**£9.95** 9781847714480

**Matthews, E Gwynn (gol.)**

## **Cenedligrwydd, Cyfiawnder a Heddwch**

Ysgrifau sy'n trafod safbwyntiau cenedlaetholwyr amlwg fel Gwynfor Evans, a chomiwnyddion Cymru, gan dalu sylw arbennig i'w perthynas â'r cysyniad o 'gyfiawnder'. Yr ail yn y gyfres athronyddol.

**£9.95** 9781847716835

**Matthews, E Gwynn (gol.)**

## **Y Drwg, y Da a'r Duwiol**

Casgliad o ysgrifau darllenadwy gan awduron blaengar yn y maes athronyddol, yn trafod crefydd, y gyfraith a gwleidyddiaeth gyda sylw i ddadleuon Wittgenstein a Rawls. Y drydedd yn y gyfres.

**£6.95** 9781847719270

**Matthews, E Gwynn (gol.)**

## **Hawliau Iaith: Cyfrwl Deyrnged Merêd**

Y bedwaredd yn y gyfres *Astudiaethau Athronyddol*; casgliad o ysgrifau difyr gan awduron blaengar sy'n trafod hawliau iaith o safbwynt athronyddol.

**£6.95** 9781784611552

Lansio *Argyfwng Hunaniaeth a Chred* yn Eisteddfod Môn

**Matthews, E Gwynn & Morgan, D**

## **Densil (golygyddion)**

### **Dirfodaeth, Cristnogaeth a'r Bywyd Da**

Casgliad o ysgrifau darllenadwy gan yr athronydd John Heywood Thomas; y bumed gyfrwl yn y gyfres *Astudiaethau Athronyddol*.

**£6.99** 9781784612689

**Matthews, E Gwynn (gol.)**

## **Argyfwng Hunaniaeth a Chred**

Ysgrifau gan gyfranwyr amrywiol am Yr Athro J R Jones, un o gewri athroniaeth yng Nghymru, ac un a ddylanwadodd ar y mudiad cenedlaethol gyda'i syniadau am berthynas tir ac iaith. Y chweched yn y gyfres arloesol, athronyddol.

**£8.99** 9781784614584



# bwrdd coffi

**Baskerville, Eirionedd A.**

## **Patagonia 150: Yma i Aros**

Cyfrwl o ffotograffau i ddathlu 150 mlynedd ers sefydlu'r Wladfa yn Mhatagonia; y capsynau i'r lluniau mewn tair iaith – Cymraeg, Saesneg a Sbaeneg.

**£12.95** 9781784611286

**Daniel, Raymond**

## **Camera'r Cymro**

Gwledd o luniau difyr o Gymru'r degawdau diwethaf: lluniau hanesyddol o enwogion, protestwyr a sêr y cyfryngau yng Nghymru a thu hwnt, a lluniau o'r Gymru wledig yn cofnodi'r newidiadau anferth ddigwyddodd yn ail hanner yr 20fed ganrif. Testun gan Lyn Ebenezzer.

**£19.95 (clawr caled)** 9780862439255

**Davies, Gareth Alban**

## **Y Llaw Broffwydol**

Astudiaeth ddarluniadol o fywyd a gwaith Owen Jones (1809-74), pensaer, dylunydd, a geiriadurwr celf arloesol. Roedd o dras Cymreig a nodir ei berthynas â'i deulu, ei gyfeillion a'i gydweithwyr ynghyd â'i ddylanwad eang ar fyfyrwr celf; gyda nodiadau manwl a 126 o luniau lliw.

**£29.95 (clawr caled)** 9780862437336

**Elis-Gruffydd, Dyfed**

## **100 o Olygfeydd Hynod Cymru**

Cyfrwl hardd, gyda thestun eglurhaol, yn tywys darllenwyr o gwmpas rhai o olygfeydd



mwyaf hynod Cymru. Cawn wybod pam fod Chwarel y Penrhyn yn un o ryfeddodau pennaf gogledd Cymru a pham yr adnabyddir Dan yr Ogorff yng Nghwm Tawe fel Porth i ran o Annwfn.

**£29.95 (clawr caled) / £19.95 (clawr meddal)**

9781847719881 / 9781847719898

**Evans, Gwynfor & Delyth, Marian**

## **Cymru o Hud**

Cyfrwl hudolus yn adlewyrchu treftadaeth hanesyddol gyfoethog Cymru trwy blethiad o argraffiadau geiriol Gwynfor Evans, un o Gymry mwyaf dylanwadol yr ugeinfed ganrif, a ffotograffiaeth sensitif Marian Delyth. 110 ffotograff lliw a 75 du-a-gwyn. Ar gael yn Saesneg fel *Eternal Wales* (0862436087).

**£24.95 £9.95 (clawr caled)** 9780862435455

**Harries, Hywel**

## **Cymru'r Cynfas / Wales on Canvas**

Bron i gant o luniau – eu chwarter mewn lliwllawn – gan bymtheg artist darluniadol sy'n gweithio yng Nghymru heddiw, gyda thestun sy'n cynnwys llawer o eiriau'r artistiaid eu hunain. Argraffiad newydd dwyieithog.

*A bilingual volume presenting the work of fifteen pictorial artists working in Wales today, with the words of the artists themselves.*

**£9.50** 9780862433567

**Hughes, Iestyn**


## **Tywydd Mawr – Mewn Llioniau / Extreme Weather in Wales**

Llyfr anrheg ar gyfer pawb sydd yn ymddiddori yn y tywydd. Mae dros 100 o ffotograffau llawn lliw o bob tywydd – eira mawr, llifogydd, gwyntoedd, stormydd, sychder – a thrafodaeth am yr hinsawdd a darogan tywydd.

**£14.99** 9781784613495







Aneurin Jones gyda'i hunangofiant

## Jenkins, Gwyn

### Ar Lan y Môr / On the Seashore

Llyfr anrheg hardd o luniau a chapsiynau dwyieithog sy'n darlunio perthynas y Cymry â glan y môr o ganol y 19eg ganrif hyd heddiw, yn arddull ei ragflaenydd, *Byw yn y Wlad*.

£14.95 9781847715210

## Jones, Aneurin

### Byd Aneurin: Hunangofiant mewn Llun a Gair

Hunangofiant yr artist Aneurin Jones, yn llawn celf a brasluniau na gyhoeddwyd o'r blaen. Mae'r gyfrol yn rhoi darlun o blentyndod gwledig yng Nghwm Wysg, a'i brofiad fel athro ac artist uchel ei barch. Llawn storïau difyr.

£19.95 (clawr meddal) 9781847710130

## Jones, Iwan Meical

### Yr Hen Ffordd Gymreig o Fyw / A Welsh Way of Life

Cyfrol yn cynnwys casgliad o ffotograffau John Thomas. Ceir hanes ei fywyd a'r hyn a'i sbardunodd i dynnu lluniau pobl, llefydd a phortreadau o gymeriadau hynod ledled Cymru; cofnod pwysig o hanes bywyd cefn gwlad yn ystod Oes Fictoria yng Nghymru.

£14.95 9781847710710

## Lloyd-Morgan, Ceridwen

### Tryweryn: Claudia Williams

Llyfr dwyieithog yn cofnodi ymateb yr artist adnabyddus Claudia Williams i fodd Cwm Tryweryn, trwy gyfrwng llun a gair, gyda rhagymadrodd gan Ceridwen Lloyd-Morgan a rhagair gan Elfyfyn Llwyd.

£14.95

9781847719249

## Llŷr, Owain

### Hadau Ceredigion

Taith trwy Geredigion sy'n ein cyflwyno i rai o'i golygfeydd a'i thrigolion hynotaf.

Cyfrol weledol drawiadol ac eang ei hapêl sy'n llunio portread difyr mewn llun, gair a ffeithiau ffraeth o rai o drigolion, lleoliadau, traddodiadau a chreaduriaid Ceredigion.

£14.99 (clawr meddal) 9781784611378

## Morris, John Meirion

### Y Weledigaeth Geltaidd

Astudiaeth arloesol o gelfyddyd y Celtiaid yn cynnig dehongliad o'r berthynas rhwng symboliaeth y gelfyddyd a byd natur a rhyfela, ysbrydolrwydd a defodaeth y bobl. Tua 150 ffotograff a diagram, y mwyafrif mewn lliw.

£24.95 £9.95 (clawr caled) 9780862435547

## Roberts, Gwyn & Jones, Tudur Huws

### Lluniau Gwyn Roberts / Photography by Gwyn Roberts

Llyfr o ffotograffau Gwyn Roberts i bapurau wythnosol ardaloedd Conwy a Bangor dros y 30 mlynedd diwethaf, gyda bywgraffiad o Gwyn; dwyieithog, gyda chapsiynau i bob llun ac ambell stori hirach.

£12.95 9781847717276

## Roberts, Ioan

### Cefn Gwlad Geoff Charles

Casgliad newydd o luniau un o brif ffotograffwyr Cymru'r ugeinfed ganrif, sy'n canolbwyntio ar ei luniau o fywyd cefn gwlad Cymru gyda rhagair a thestun gan y newyddiadurwr Ioan Roberts.

£12.95 9780862438951

## Roberts, Ioan

### Cymru Geoff Charles

Casgliad o 140 o ffotograffau du-a-gwyn a dynnwyd gan Geoff Charles, yn portreadu digwyddiadau a phobl amlwg a chyffredin yng Nghymru'r 20fed ganrif, ynghyd â nodiadau am y lluniau a bywgraffiad o'r ffotograffydd.

£14.95 9780862437343

## Roberts, Ioan

### Eisteddfodau Geoff Charles

Detholiad o luniau Geoff Charles o eisteddfodau ar hyd a lled Cymru mewn cyfrol sy'n dilyn patrwm ei gyfrolau ar Gymru a chefn gwlad, gyda chyflwyniad a thestun gan Ioan Roberts.

£12.95 9780862439804

## Rushton, Tim

### Capeli / Chapels

Ers y nawdegau cynnar bu Tim Rushton yn tynnu lluniau o gapeli anghydfurfiol Cymru, rhai mawreddog a rhai cyffredin. Mae yna amrywiaeth diderfyn yn eu pensaernïaeth, a rhyw hud sy'n swyno'r ffotograffydd a'r darlennydd fel ei gilydd.

£14.95



9781847714657

## Thomas, Geraint

### Cyfrinachau Llynnoedd Eryri

Llyfr dwyieithog, deniadol sy'n ffrwyth llafur blwyddyn gyfan yn ymweld â holl llynnoedd Parc Cenedlaethol Eryri. Yn ogystal â'r ffotograffau bendigedig ceir hanes rhai o'r chwedlau sy'n gysylltiedig â'r llynnoedd. Mae'r awdur yn ffotograffydd blaenllaw sy'n rhedeg oriel *Panorama* yng Nghaernarfon.

£14.95 9781847713735



Llyn Conglog Mawr allan o Cyfrinachau Llynnoedd Eryri gan Geraint Thomas



## Arwyn, Robat

### Wyth Cân, Pedair Sioe

Cyfrwl o wyth cân allan o bedair sioe gerdd a gyfansoddwyd gan Robat Arwyn: 'Rhys a Meirion', 'Iarlles y Ffynnon', 'Plas Du' a 'Pwy bïa'r Gân?'.

£9.95 9781847712653

## Arwyn, Robat & ab Owain, Robin

### Llwyd

#### Ceidwad y Gannwyll

Casgliad o 10 o ganeuon gwreiddiol gyda chyfeiliant piano ar gyfer plant rhwng 8 a 14 oed, gan y cyfansoddwr poblogaidd Robat Arwyn i eiriau'r bardd Robin Llwyd ab Owain. Adargraffiad.

£6.95 9780862432492

## Arwyn, Robat & ab Owain, Robin

### Llwyd

#### Gwin Beaujolais

Dwsin o ganeuon ysgafn poblogaidd a gyfansoddwyd rhwng 1985 a 1991 wedi eu trefnu o'r newydd ar gyfer corau a phartion o bob math. Cyfeiliant llawn a chordiau gitâr.

£6.95 9780862432492

## Arwyn, Robat & Williams, Derec &

### Roberts, Penri

#### Er Mwyn Yfory

Caneuon y ddrama gerdd boblogaidd am Ryfel y Degwm, a berfformiwyd gan Gwmni Theatr Meirion yn Eisteddfod Genedlaethol y Bala, 1997, ac a fu wedyn ar daith lwyddiannus trwy Gymru.

£8.95 9780862434847

## Davies, Ryan

### Caneuon Ryan

11 o ganeuon enwocaf Ryan wedi'u trefnu ar gyfer piano a llais gan Eleri Huws, yn cynnwys 'Dim Ond Troi', 'Nadolig? Pwy a Wyr?' a 'Pan Fo'r Nos yn Hir'.

£5.95 9780862430610

## Edwards, Meirion Wyn (gol.)

### 100 o Ganeuon Pop

Llyfr hylaw mewn rhwymiad sbeiral yn cynnwys 100 o ganeuon pop Cymraeg mwyaf poblogaidd y deugain mlynedd diwethaf gydag alawon, geiriau a chordiau gitâr syml. Mae'n cynnwys caneuon oesol fel 'Pishyn', 'Calon', 'Tŷ ar y Mynydd', 'Trons dy Dad' ac 'Ysbryd y Nos'.

£14.95 9781847712417

## Edwards, Meirion Wyn (gol.)

### 100 o Ganeuon Gwerin

Yn dilyn llwyddiant *100 o Ganeuon Pop*, dyma gasgliad o gant o ganeuon gwerin mwyaf poblogaidd Cymru, yn cynnwys yr alawon, y geiriau, cordiau gitâr a sol-ffa.

£14.95 9781847715999

## Edwards, Meirion Wyn (gol.)

### Ar Noson Oer Nadolig

Casgliad o garolau ar gyfer llais a chyfeiliant piano, gan rai o gyfansoddwyr gorau Cymru, fel Geraint Cynan, Caryl Parry Jones, Pwyll ap Sion a Robat Arwyn. Mae yma garolau newydd a threfniannau newydd o garolau adnabyddus fel 'Hwiangerdd Mair'.

£9.95 9781847711779

## Gittins, Lynda & Williams, Derec &

### Roberts, Penri

#### Sioeau Maldwyn

21 o ganeuon cofiadwy sy'n ddetholiad o 7 sioe gerdd lwyddiannus a luniwyd gan driawd dawnus ar gyfer Cwmnïau Theatr Maldwyn a Meirion er 1981.

£8.95 9780862434915


## Hughes, Catrin Wyn (gol.)

### Sioetastig!

22 o ganeuon amrywiol o sioeau cerdd; 13 wedi eu cyfieithu o'r Saesneg i'r Gymraeg o sioeau fel *Chicago*, *Sweeney Todd* a *High School Musical* a 9 cân o sioeau cerdd Cymraeg. Unawdau, deuawdau, a chaneuon i bartion a chorau gyda chyfeiliant piano llawn; ar gyfer unawdwyr, ysgolion a chorau.

£12.95

9781784611101



## Ifan, Tecwyn

### Caneuon

#### Tecwyn Ifan

Dyma gasgliad o 20 o ganeuon cynnar Tecwyn Ifan wedi'u trefnu'n syml ar gyfer gitâr a llais er mwyn i bawb eu canu a'u mwynhau.

£5.95 9781847716323

## Iwan, Dafydd

### Holl Ganeuon Dafydd Iwan

150 o ganeuon Dafydd Iwan wedi eu trefnu o'r newydd gyda sol-ffa a chordiau gitâr, llawer ohonynt â chyfeiliant piano. Ffotograffau du-a-gwyn.

£9.95 9780862432775

## Jenkins, Falyri

### Codi Bawd a Dweud Helô

68 o ganeuon ar gyfer plant 3-7 oed, 15 ohonynt yn newydd sbon; cyfrol ddelfrydol ar gyfer athrawon a disgyblion y Cyfnod Sylfaen. Mae'r caneuon yn cwmpasu amryw o themâu o fyd natur a'r byd o'n cwmpas.

£7.95 9781847715043

## Jones, Eddie

### Dawnsie Twmpath

Argraffiad dwyieithog o gasgliad safonol o 55 o ddawnsiau gwerin poblogaidd Cymreig, yn cynnwys cyfarwyddiadau manwl ar gyfer y camau dawnsio a chordiau gitâr. Addas i bob oed!

£8.95 9780862432423

## Jones, J Eirian

### Cynghanedd Cariad

Casgliad deniadol o 16 o ganeuon, yn cynnwys trefniannau unllais a deulais, gyda chyfeiliant piano o ganeuon crefyddol ac ysgafn amrywiol; ar gyfer ysgolion dyddiol ac Ysgolion Sul, cyngerdd ac eisteddfod.

£7.95 9780862434182

## Jones, J Eirian

### Mwy o Gynghanedd Cariad

Ail gyfrol o ganeuon poblogaidd i blant o bob oed gan y gyfansoddwrraig o Gwm-ann.

£5.95 9780862438333

## Jones, J Eirian

### Cynghanedd Cariad 3

Cyfrwl arall werthfawr o ganeuon gan Eirian Jones, athrawes gerdd, athrawes ganu, beirniad, arweinydd, cyfeilydd a chyfansoddwrraig.

£6.99 9781784612665

## Jones, Sŵ Gerallt

### Dwylo ar y Piano

Llawlyfr safonol a phoblogaidd ar gyfer dysgu'r piano gydag ymarferion manwl ar gyfer pob cam gan orffen â chasgliad o alawon Cymreig i ymarfer arnynt.

£6.50 9780862431242

## Jones, Sŵ Gerallt

### Dwylo Eto ar y Piano

Dilyniant i *Dwylo ar y Piano* ar gyfer cerddorion ifainc.

£4.50 9780862432034

## Jones, Sŵ Gerallt

### Dwylo ar y Piano 3:

#### Dawnsiau Celtaidd

Dawnsiau o'r gwledydd Celtaidd wedi'u trefnu i biano ar gyfer disgyblion sydd eisoes wedi meistrolï'r sgiliau elfennol, gyda chyflwyniad i gyweirnodau a rhythmau.

£6.95 9781847712455

## Owen, Mari

### Rhian & Taylor,

#### Rhys

#### 'Sneb yn

#### Becso Dam

Drama gerdd newydd sbon, wedi'i seilio ar ganeuon Edward H. Dafis, sy'n cynnwys sgript wreiddiol a 12 cân ac yn para tua 100 munud i'w pherfformio.

£11.95

9781847715050



## Canwn

Llyfryn poced yn cynnwys dros gant o'n caneuon Cymraeg mwyaf poblogaidd i'w cyd-ganu ar unrhyw achlysur! Yn cynnwys 'Arglwydd Dyma Fi', 'Ar Lan y Môr', 'Cofio Dy Wyneb', 'Hen Ferchetan' ac 'Yma o Hyd'.

£2.95 9780862432171

## Vaughan-Jones, Geraint (gol.)

### Hen Garolau Plygain

24 o garolau plygain poblogaidd gyda geiriau a cherddoriaeth, hen nodiant a sol-ffa; yn cynnwys 'Carol y Swper', 'Ar Gyfer Heddiw'r Bore', a 'Clywch Lais Nefolaidd Lu'.

£7.95 9780862431549



## Bowen, Zonia

### Dy Bobl Di Fydd fy Mhobl I

Hunangofiant agos atoch a gonest yn disgrifio bywyd lliwgar Saesnes a gofleidiodd yr iaith Gymraeg ac a fu'n allweddol yn arwain merched y Parc i sefydlu Merched y Wawr.

£9.95 9781784610647

## Charles, Idris

### Charles: Cofio'r Dyn a'i Ddigrifwch

Cyfrwl i ddathlu canmlwyddiant geni y diweddar Charles Williams, yr actor a'r diddanwr enwog o Fôn.

£9.95 9781784611668

## Clowes, Carl

### Super Furries, Prins Seisio, Miss Siberia – A Fi

Hunangofiant ffigwr dylanwadol nad yw'n ofni dweud ei ddweud. Yn sylfaenydd Canolfan Iaith Nant Gwrtheyrn, mae'r awdur yn adnabyddus yn lleol ac yn genedlaethol am ei frwydrau dros yr iaith, dros gyfiawnder mewn gwledydd eraill, ac yn erbyn ynni niwclear.

£12.99 9781784611576

## Davies, Barbara

### Y Faciwi

Dyma stori ryfeddol Barbara Warlow Davies a adawodd Lerpwl am Dalgarreg yng Ngheredigion yng nghanol yr Ail Ryfel Byd fel faciwi, 'yn Saesnes uniaith bedair oed'.


£7.95 9781847716743

## Davies, John

### Dala'r Slac yn Dynn: Hunangofiant John Davies

Hunangofiant y chwaraewr rygbi chwedlonol, wedi ei gydysgrifennu gan Wyn Gruffydd. Bu John yn un o gewri rheng flaen Castell-nedd a Llanelli am flynyddoedd lawer, ac enillodd 34 cap i Gymru. Caiiff ei gydnabod fel un o chwaraewyr caletaf a mwyaf cyson y gêm.

£9.95 9781847713285



## Davies, John

### Fy Hanes I

Hunangofiant yr hanesydd John Davies, Bwlch-llan, awdur y clasur *Hanes Cymru*. Dyma gyfrol onest a dadlennol gan Gymro eithriadol a gyfrannodd fwy nag unrhyw un tuag at ein gwybodaeth a'n diddordeb yn hanes ein gwlad.

£9.95 9781847719850

## Elfyn, Gwyn

### Gwyn y Mans

Fel Denzil ar *Pobol y Cwm* y mae Gwyn Elfyn fwyaf adnabyddus, rhan a chwaraeodd am bron i 30 mlynedd. Ond yn yr hunangofiant yma, ceir hefyd hanes Gwyn yn ei filltir sgwâr yng Nghwm Gwendraeth, yn hyfforddwr rygbi, dyn teulu a Christian – a chyn brif leisydd y grŵp Chwarterer i Un!

£9.95 9781847715128

## Emrys, Hywel

### Hunangofiant Dyn Lwcus

Hunangofiant yr actor sy'n fwyaf adnabyddus fel Derek, perchennog y Garej ar *Pobol y Cwm*, ac yn adnabyddus drwy Gymru ben baladr.

£9.99 9781784613310

## Erith, Huw

### Llanw Braich, Trai Bylan

Hunangofiant gwladwr o bysgotwr o ben draw Llŷn, yn cynnwys portreadau o'i fro, ei deulu, a throeon trwstan ei fywyd, ac ambell hanesyn am gymeriadau lliwgar ei fro; lluniau lliw a du-a-gwyn.

£9.95 9781784610630



## Evans, Eluned & Jones, Rocet Arwel (gol.)

### Merêd: Dyn ar Dân

Ysgrifau coffa a cherddi gan amrywiaeth eang o awduron yn trafod cyfraniad aruthrol Merêd i ddiwylliant a gwleidyddiaeth Cymru. Mae'r gyfrol yr un mor amrywiol â'i gyfraniadau lu i athroniaeth, gwleidyddiaeth, i ganu ysgafn a chanu gwerin, ac fel addysgwyr a sylfaenydd papur bro.

£9.99 9781784612504

## Evans, Rhys

### Rhag Pob Brad: Cofiant Gwynfor Evans

Cofiant cynhwysfawr, meistrolgar am un o'r ffigurau mwyaf dylanwadol ac allweddol yng ngwleidyddiaeth Cymru yn yr ugeinfed ganrif; yn cynnwys llawer o ffeithiau newydd am ei fywyd personol a'i yrfa.

Llyfr y Flwyddyn 2006

£24.95 £9.95 9780862437954

## George, T Melfydd

### O Gell y Cof

Mae Tomos Melfydd George yn gymeriad adnabyddus yn ei ardal, sef gogledd Sir Benfro a de Sir Aberteifi. Ac yntau bellach yn ei wythdegau daw ei atgofion yn ôl iddo yn ddwfn o gell ei gof.

£8.99 9781784613150

## Gibbard, Alun

### Carwyn: Yn Erbyn y Gwynt

Cofiant cynhwysfawr i Carwyn James, athro ac awdur, darlledwr a gwleidydd, chwaraewr rygbi rhyngwladol a hyfforddwr disglair, ond enaid clwyfus, serch hynny. Trafodir ei fywyd a'i waith gyda sylw i'w gyfraniad cyfoethog i fywyd cyhoeddus Cymru; gydag 88 o luniau, nifer ohonynt yn rhai newydd.

£14.99 9781784611644

## Griffiths, Gwyn

### Ar Drywydd Stori

Hunangofiant difyr awdur a newyddiadurwr a fagwyd yn Nhregaron. Gweithiodd i fudiad Urdd Gobaith Cymru, i bapur newydd *Y Cymro* ac i BBC Cymru fel pennaeth y wasg. Disgrifir y newidiadau mawr a ddigwyddodd ym mywyd Cymru, y Gymraeg a'r cyfryngau.

£9.95 9781784611231

## Griffiths, Tweli

### Yn ei Chanol Hi

Hunangofiant gwahanol a chyffrous tu hwnt sy'n dilyn ôl traed un o newyddiadurwyr mwyaf profiadol Cymru wrth iddo deithio o Gymru i ben draw'r byd yn chwilio am stori – gan y Cynol Gaddafi yn Libya a brawd Fidel Castro yng Nghiwba – a llu o rai eraill!

£9.99 9781784611583

## Gruffudd, Robot

### Lolian:

### Dyddiadur

### Hanner Canrif

Dyddiadur sylfaenydd

Y Lolfa a'r cylchgrawn

*Lol*: cyfrol onest ac

eccentrig sy'n cynnwys

cymysgedd o straeon,

sylwadau, meddyliau,

jôcs, helyntion y byd

cyhoeddi – ac atgofion

o gyfarfyddiadau difyr

yng Nghymru ac mewn

bariau ar y Cyfandir!

£9.99 9781784613358



## Gwyndaf, Robin

### Taliesin o Eifion a'i Oes

Portread difyr o'r bardd o Langollen. Roedd yn beintiwr ac yn addurnwr dawnus yn ogystal â bod yn awdur cerddi hwyliog megis 'Y Saer a'r Teiliwr'. Bu farw'n union ar ôl anfon ei awdl fuddugol i Eisteddfod Wrecsam, 1876.


£19.95 9781847713919

## Huysmans, Kees

### Dechrau Canu, Dechrau Wafflo

Hunangofiant y canwr a'r dyn busnes llwyddiannus, Kees Huysmans a symudodd i gefn gwlad Cymru o'r Iseldiroedd yn yr 1980au. Dyma stori ryfeddol ac unigryw am fewnfudwr heb geiniog i'w enw yn mabwysiadu iaith a diwylliant Cymru ac ennill y Rhuban Glas.

£9.99 9781784614119



## Iwan, Dafydd

### Pobol

Un o bobl amlycaf y Gymru gyfoes yn ysgrifennu'n onest a difyr am rai o fawrion ein cenedl. O Lewis Valentine i Kate Roberts, o Graf i Merêd, dyma bortreadau byrion o dros 50 o Gymry (ac ambell Sais teilwng!) sydd wedi'n gadael ni.

£9.99 9781784611606

## Jones, Aeryn

### Aeryn Llangwm: Moch Bach mewn Baged Ddillad

Hanes gwerinwr go iawn, un o hen yd y wlad: dyn ei filltir sgwâr, yn ymwneud â phob agwedd ar ddiwylliant a chymdeithas yn lleol. Mae'n grefftwr medrus yn ogystal, yn waliwr a phlygwr gwrych tan gamp, â diddordeb arbennig mewn hen gelfi a hen offer.

£7.95 9781847716699





Lyn Ebenezer a Dai Jones

### Jones, Dai Tra Bo Dai

Ail hunangofiant Dai Jones Llanilar yn dilyn hynt a helynt ei yrfa fel ffarmwr, cyflwynydd a darlledwr mwyaf poblogaidd Cymru. Cydysgrifennwyd gyda'i gyfaill mawr, Lyn Ebenezer.

£9.99 9781784613372

### Jones, Dr E Tudor Hanes Hen Feddyg

Er treulio deugain mlynedd fel meddyg teulu yng Nghricieth, nid dyna dechrau'r daith i Dr Tudor. Yn ei hunangofiant dadlennol mae'r doctor poblogaidd yn rhannu hanesion annisgwyl ei anturiaethau yn niffeithwch y Sahara, yn feddyg gyda'r fyddin yn Libya.

£9.95 9781847716613

### Jones, Gareth Wyn Mab y Mynydd

Hunangofiant un o sêr cynnar y gyfres deledu *Fferm Ffactor*, Gareth Wyn Jones: ffermwr adnabyddus sy'n barod i ddweud ei farn. Mae'n byw yn Llanfairfechan, yn faer ac yn ymwneud â sawl cymdeithas amaethyddol, yn arbennig rhai cŵn a merlod mynydd.

£9.95 9781847714442

### Jones, John Elfed Dyfroedd Dyfnion

Hunangofiant un o bersonoliaethau mwyaf dadleuol a diflewyn-ar-dafod Cymru, sydd wedi hen arfer â chreu penawdau cenedlaethol. Beth yw gwir gymhellion y gŵr adnabyddus hwn sydd wedi arwain rhai o gyrff mwyaf pwerus y genedl, gan gynnwys Dŵr Cymru a Bwrdd yr Iaith Gymraeg?

£9.95 9781847716750

### Jones, Julian Lewis Allan o'r Cysgodion

Cofiant Julian Lewis Jones, yr actor a'r cyflwynydd teledu sydd wedi gwneud enw iddo'i hun fel actor yn Hollywood mewn ffilmiau fel *Invictus* gyda'r cyfarwyddwr Clint Eastwood, a *Zero Dark Thirty*.

£9.95 9781847717269

### Jones, Richard & Jones, Wyn Fflach o Ail Symudiad: Stori Richard a Wyn

Hanes y brodyr Richard a Wyn Jones a'r band Ail Symudiad o Aberteifi ynghyd â'u troeon trwstan pan oedden nhw'n chwarae 50 o gigs

mewn blwyddyn. Sonir hefyd am sefydlu cwmni recordio Fflach sydd â thros 400 o deitlau yn eu catalog. Gyda CD am ddim!  
£9.95 9781847718808

### Lewis, Ken Insbector Ken: Atgofion Plismon yn y Gorllewin Gwylt

Cofnod gonest am waith heddwas o'r chwedegau a ddaeth yn brif arolygydd cyn iddo ymddeol. Cawn hanes ei ardal enedigol a'r achosion digri a difrif y bu'n ymwneud â hwy pan oedd plismona'n wahanol i heddiw.

£9.95 9781784611248

### Llewelyn, Emrys Stagio Dre

Llyfryn taith â thro yn ei chynffon. Wrth Stagio Dre cawn hanesion difyr am adeiladau, afonydd, tai potas a chymeriadau Caernarfon wedi eu plethu rhwng pytau bywgraffyddol ac atgofion doniol yr awdur.

£5.95 9781847717214

### Lloyd, Geraint Y Dyn Tu ôl i'r Llais

Hunangofiant Geraint Lloyd, y darlledwr adnabyddus o Geredigion, ac un o'r bobl hynny a fu'n ddigon lwcus i fyw ac ennill ei fara menynt yn ei filltir sgwâr yng Ngheredigion gan weithio mewn siop, mewn garej ac yna ym myd y cyfryngau.

£9.95 9781847717221

### Llwyd, Alan Cofiant Hedd Wyn

Cofiant wedi'i seilio ar gyfrol flaenorol yr awdur, *Gwae Fi fy Myw: Cofiant Hedd Wyn*, ac yn cynnwys ffrwyth ymchwil bellach a llawer o wybodaeth newydd a dadlennol am y bardd o ardal Trawsfynydd.

£14.95 9781784610425

### Llwyd, Alan Gwenallt: Cofiant D Gwenallt Jones, 1899–1968

Cofiant i un o feirdd disgleiriaf yr ugeinfed ganrif a oedd hefyd yn ysgolhaig a chenedlaetholwr amlwg.

£19.99 9781784613327

### Llwyd, Alan Kate: Cofiant Kate Roberts, 1891–1985

Cofiant anhepgor i 'Gymraes fwyaf yr ugeinfed ganrif'. Dyma gofiant gofiant di-ofn o onest a hynod o ddadlennol (trwy ddyfynnu o'i dyddiaduron), ac mae manylder ymchwil ac ehangder gwybodaeth Alan Llwyd yn taflu goleuni newydd ar 'Frenhines ein Llên'.

£29.95 (clawr caled) / £19.95 (clawr meddal)  
9781847713360 / 9781847713933

### Llwyd, Alan Waldo – Cofiant Waldo Williams, 1904–1971

Y cofiant cyntaf erioed i'r ffigwr eiconaidd sy'n chwilio, nid yn unig am y dyn, ond am y bardd, yr heddychwyr a'r ymgyrchwr, y brawdgarwr a'r brogarwr, y cenedlaetholwr a'r doniolwr.

£29.95 (clawr caled) 9781784610418

### Llyr, Brychan Hunan-Anghofiant

Y canwr o Aberteifi sy'n agor ei galon am ei frwydr ag alcoholiaeth ac yn trafod ei gyfnod yn brif leisydd y band Jess a'i ddeng mlynedd yn gerddor proffesiynol yn yr Eidal; ynghyd â'i hanesion yn cystadlu ym myd peryglus rasio ceffylau pwynt i bwynt.

£9.95 9781847717238

### Meirion, Rhys Stopio'r Byd am Funud Fach

Hunangofiant y canwr adnabyddus Rhys Meirion, sy'n datgelu hanes ei daith emosiynol i frig y byd canu. Mae'r gyfrol yn frith o sylwadau diddorol am fyd cerddoriaeth ac am uchelfannau ac iselfannau bywyd.

£9.95 9781847719867


### Morgan, Elystan Elystan: Atgofion Oes

Atgofion difyr a drygionus y gwleidydd Elystan Morgan, un o gymeriadau amlycaf Ceredigion, yn gyn-Aelod Seneddol ac wedyn yn farnwr ac aelod o Dŷ'r Arglwyddi. Bu'n ymgeisydd dros Blaid Cymru nifer o weithiau cyn cael ei ethol dros y Blaid Lafur yn 1966.

£12.95 9781847713278

Elystan Morgan yn lansio'i hunangofiant (llun Arvid Parry-Jones)





**Morgan, Gerald**  
**Cymro a'i Lyfrau**

Hunangofiant gwahanol un dyn trwy gyfrwng ei gasgliad enfawr a difyr o lyfrau, y dechreuodd eu casglu â'i arian poced pan oedd yn ddim ond 9 oed. Cofnod personol sy'n datgelu cymaint

am y Cymro diddorol hwn ag a ddywed am ei gasgliad rhyfeddol o lyfrau.

**£9.99** 9781784614126

**Morgan, Mihangel**  
**Pygiana ac Obsesiynau Eraill**

Un o'n hawduron mwyaf talentog a thoreithiog yn edrych ar fyfwr a celfyddydau yng Nghymru, Lloegr ac America – ond nid cyfrol o feirniadaeth gelfyddydol mo hon, ond golwg bersonol ar rai o enwau mawr byd ffilm a chelf a chrefft.

**£7.95** 9781847717535

**Owen, Bob**  
**O Gricieth i Kathmandu: Atgofion Llawfeddyg o Lŷn**

Hunangofiant yr Athro Robert Owen OBE, llawfeddyg orthopaedig a fagwyd ar fferm ger Llanystumdwy; hyfforddwyd yn Ysbyty Guy's yn Llundain cyn gwasanaethu yn y Llu Awyr, yna gweithio fel ymgynghorydd yng Nghlwyd ac academydd yn Lerpwl.

**£6.95** 9781784611811

**Peel, Dwayne**  
**Dwayne Peel: Hunangofiant**

Hunangofiant y mewnwr rhyngwladol a enillodd 76 cap i Gymru a chael ei ddewis i'r Llewod a'r Barbariaid.

**£9.95** 9781847716002


Mihangel Morgan



**Pontshân, Eirwyn**  
**Hyfryd lawn**

Argraffiad cyfyngedig, wedi ei lofnodi, o lyfr cynta'r Lolfa erioed; ail argraffwyd yn 2017 i nodi pen-blwydd y cwmni yn 50 oed. Llyfr llawn storiâu doniol gydag elfen o ddychan crafog a phathos.

**£10.00** 9781784614669



**Rees, D Ben**  
**Cledwyn Hughes – Un o Wyr Mawr Môn a Chymru**

Cofiant cynhwysfawr i un o gewri gwleidyddol Cymru'r ugeinfed ganrif. Roedd Cledwyn Hughes yn Ysgrifennydd Gwladol ar ôl Jim Griffiths ac yn

ffigwr blaenllaw yng ngwleidyddiaeth Cymru am ddegawdau lawer, gan chwarae rhan allweddol yn y gwaith o sicrhau sianel deledu Gymraeg.

**£24.99 (clawr caled) / £14.99 (clawr meddal)**

9781784614881 / 9781784614102

**Rees, D Ben**  
**Jim Griffiths: Arwr Glew y Werin**

Bywgraffiad un o wleidyddion Cymraeg pwysicaf ail hanner yr ugeinfed ganrif a Gweinidog Gwladol cyntaf Cymru; cyfrol sy'n llenwi bwch arbennig, gan nad oes cyfrol Gymraeg wedi'i chyhoeddi am ei fywyd a'i yrfa.

**£24.95 (clawr caled) / £14.95 (clawr meddal)**

9781847719904 / 9781847719010

**Rees, D Ben**  
**Di-Ben-Draw**

Hunangofiant y Parchedig D Ben Rees, gweinidog a darlithydd, awdur a chyhoeddwr a gyfrannodd yn fawr i amryfal agweddau ar fywyd Cymru a Lerpwl.

**£12.99** 9781784611866

**Rhys, Ieuan**  
**Allt ti Beswch!**

I ddatlu 30 mlynedd yn actor proffesiynol, dyma hunangofiant Ieuan Rhys, yr actor a'r diddanwr adnabyddus a fu'n chwarae rhan Sgt Glyn James, y bobi pentre, ar oper Ma sebon boblogaidd *Pobl y Cwm* am dair blynedd ar ddeg.

**£9.95** 9781847717160

**Roberts, Osian**  
**Môn, Cymru a'r Bêl**

Hunangofiant is-reolwr tim pêl-droed Cymru, Osian Roberts. Yn ogystal ag edrych yn ôl ar ei fywyd fel chwaraewr a hyfforddwr, mae'n dadansoddi'r ymgyrch ragorol i gyrraedd rowndiau terfynol Ewro 16 ac yn rhoi cip ar y paratoadau ar gyfer Ffrainc a thu hwnt.

**£9.99** 9781784612276

**Stephens, Meic**  
**Cofnodion**

Dyma hunangofiant Meic Stephens, awdur, athro, newyddiadurwr, gweinyddwr, cyfieithydd, bardd, golygydd a chenedlaetholwr; sut y tyfodd y crwt di-



Osian Roberts

Gymraeg o Drefforest yn Gymro Cymraeg a chwaraeodd ran mor flaenllaw ym mywyd diwylliannol Cymru.

**£9.95** 9781847714305

**Thomas, Delme**  
**Delme: Hunangofiant**

Hunangofiant arwr Llanelli, Cymru a'r Llewod, Delme Thomas. Cyrhaeddodd y brig gyda'i glwb, ei wlad a'r Llewod. Daeth ei enw'n adnabyddus ymhob cornel o'r byd rygbi, gan ennyn parch mawr gan y rhai y bu'n chwarae gyda nhw ac yn eu herbyn.

**£9.95** 9781847717245

**Wyn, Hefin**  
**Ar Drywydd Meic Stevens: Y Swynwr o Solfach**


Cofiant cynhwysfawr am y swynwr o Solfach, Meic Stevens. Yn dilyn tair cyfrol hunangofiannol ganddo, dyma gofnod gonest a manwl, gyda chyfeillion, cerddorion a theulu yn hel atgofion. Cyfrol werthfawr, swmpus sy'n dechrau ym mharti pen-blwydd y canwr yn 70 oed.

**£14.99** 9781784611613

**Wyn, Hefin**  
**Ar Drywydd Waldo (Ar Gwyn Beic)**

Seiclo oedd dull arferol Waldo Williams o deithio, a dyna wna Hefin Wyn yng nghwmni Teifryn Williams, nai Waldo, yn y gyfrol hon. Mae'r ddau'n teithio ar gefn beic o gwmpas sir Benfro, i rannau o Loegr ac ar draws Iwerddon i gwrdd â rhai a adwaenai'r bardd.

**£14.95**  
9781847714923






**Dafydd, Catrin**

**Gwales**

Mae Brynach Yang am orffen popeth. Ac mae'n mynd i'w wneud e. Heno. Ond beth fydd yn digwydd i Gymru wedyn? Mae ymgyrch Gwales ar fin dechrau ar siwrne gythryblus... a Brynach sy'n arwain y chwyldro... Nofel gyffrous a deallus, wedi ei lleoli yng Nghymru'r dyfodol agos, gan awdures brofiadol â llais unigryw.

**£9.99**  
9781784614096



**Evans, Aled**

**Saith Cam Iolo**

Nofel hanesyddol, afaelgar am berthynas Iolo Morganwg ac Owain Myfyr; daeth yn agos at ennill y Fedal Ryddiaith yn Eisteddfod Meifod 2015.

**£7.99** 9781784612573

**Evans, Geraint**

**Y Llwybr**

Nofel dditectif gyffrous wedi ei lleoli yn Aberystwyth. Ar ôl noson o yfed trwm mewn dawns Gŵyl Ddewi yn Undeb y Myfyrwyr, mae myfyrwraig ddeniadol yn cael ei llofruddio ar ei ffordd yn ôl i

Neuadd Glan-y-môr...  
**£7.95** 9781847711236

**Dafydd, Guto**

**Stad**

Nofel gynta'r awdur i oedolion, yn adrodd hanes Theo, sy'n dod yn ôl i'w gynefin ym Mhen Llŷn pan gaiff ei dad ei daro'n wael, gan newid byd ar ôl bywyd ariangar, trachwantus yn y ddinas. Nofel ffraeth, â sawl tro annisgwyl, sy'n ymdrin â themâu megis hunaniaeth a threftadaeth.

**£8.95** 9781784611279

**Dafydd, Guto**

**Ymbelydredd**

Beth sy'n digwydd pan fo'n rhaid i ŵr ifanc o dref fach yng Ngwynedd dreulio chwe wythnos ym Manceinion ar gyfer cwrs o radiotherapi? Cawn yn y nofel fentrus hon ddarlun o fywyd trwy lygaid claf rhif 24609-3740.

**Gwobr Goffa Daniel Owen 2016**  
**£8.99** 781784613297



**Evans, Geraint**

**Diawl y Wasg**

Mae Meurig Selwyn – bardd a phennaeth Gwasg Gwenddwr – yn cael ei llofruddio, gan gychwyn achos dyrs arall i Gareth Prior a'i dîm o dditectifs. Cawn ein harwain o Aberystwyth i strydoedd cefn Napoli, i fyd gamblo ar-lein ac i bentref bach tawel yn ardal Brycheiniog.

**£8.95** 9781847716712

**Evans, Geraint**

**Y Gelyn Cudd**

Pedwaredd nofel dditectif yn y gyfres boblogaidd am Gareth Prior a'i dîm. Mae'n mynd â ni i Gaerdydd ac i bencadlys yr MI5



yn Llundain yn dilyn diflaniad Syr Gerald oddi ar ei gwch ym Mae Aberteifi. Ond pwy yw'r gelyn go iawn?


**£8.95** 9781784611262

**Davis, Martin**

**Broc Rhyfel**

Nofel gyfoes, gyffrous am Keith Jones, 54 oed, cyn-werthwr arfau, a Nina Pluskar, merch 19 oed o Sarajevo ym Mosnia Herzegovina sy'n cael ei thwylo i deithio i'r Gorllewin a'i dal yn gaeth gan fasnachwyr y diwydiant rhyw.

**£8.95**  
9781847718792



**Gibbard, Alun**

**Talcen Caled**

Nofel wedi ei gosod yng nghyfnod cythryblus Streic y Glowyr yn 1984/85, streic a welodd ddiwedd diwydiant glo de Cymru; mae'r stori'n canolbwyntio ar y tensiynau rhwng y streicwyr, a'r rhai sy'n torri'r streic.

**£7.95** 9781847719782

**Edwards, Dana**

**Pam?**

Mae tri ffrind yn gadael coleg a dechrau gwneud eu ffordd yn y byd yn y ddegawd gythryblus a chyffrous sy'n arwain at sefydlu Cynulliad i Gymru. Mae'r tri yn rhannu'r un pen-blwydd, ond yn rhannu cyfrinach hefyd: un sy'n bygwth dinistrio pob un ohonynt.

**£8.99**  
9781784612948

**Gower, Jon**

**Rebel Rebel**

Casgliad o 21 stori fer sy'n amrywio o ran hyd a themâu; caiff sawl rebel adnabyddus (e.e. David Bowie, Mick Jagger a James Dean) ei glodfori yn y gyfrol ffres a lliwgar hon.

**£7.99**  
9781784612955



**Gregory, Rhiannon**

**Aderyn Brith**

Nofel hanesyddol fyrlymus yn seiliedig ar hanes gwir a hynod Maï ar Manac'h, Arglwyddes Mond, a sy'n disgrifio ei bywyd lliwgar, o dlodi i gyfoeth, adeg yr Ail Ryfel Byd.

**£8.95** 9781847716866

**Griffith, Euron**

**Leni Tiwdor**

Nofel gyfoes ddoniol â llinyn storiol gref yn arddull Nick Hornby. Stori 'dditectif', ond un anarferol, â chanddi arwr anarferol – a dweud y gwir, dyw e fawr o arwr o gwbwl.


**£8.95**  
9781847717252

**Griffith, Euron**

**Tri Deg Tri**

Nofel wreiddiol hynod o ddyfeisgar am ddyn cyffredin sydd hefyd yn hitman. Beth yw'r gyfrinach o'r gorffennol sy'n bygwth chwalu ei ddyfodol?

**£8.99**  
9781784613396



**Gruffudd, Robat**

**Afallon**

Mae Rhys John yn dychwelyd i Abertawe gan edrych ymlaen at ymddeoliad hir ar ôl gweithio am ugain mlynedd i gwmni pharma yn Berlin. Ond un pnawn ar draeth Langland, mae'n cwrdd ag Americanaes ddeniadol... stori gyffrous a gafaelgar o gefndir rhyngwladol.

**Gwobr Goffa Daniel Owen 2012**  
**£9.95** 9781847715265

**Gwanas, Bethan**

**Hi yw fy Ffrind**

Nofel fywiog yn portreadu cyfeillgarwch dwy ferch wrth iddynt brofi hwyl a dwyster tyfu i fyny yng nghefn gwlad sir Feirionnydd rhwng yr 1960au a'r 1980au.

**£6.95** 97800862437275

**Gwanas, Bethan**

**Hi Oedd fy Ffrind**

Dilyniant hirddisgwyliedig i'r nofel *Hi yw fy Ffrind*: mwy o helyntion y ddwy ffrind Nia a Non yn y Brifysgol, ond wedi'r hwyl a'r meddwi colegol daw diwedd glo ysgytwol.

**£7.95** 9780862439224

**Gwanas, Bethan**

**I Botany Bay**

Nofel hanesyddol uchelgeisiol a darllenadwy sy'n dilyn hanes Cymraes go iawn o'r enw Ann Lewis, merch ifanc o deulu cyffredin a lwyddodd i gael gwaith mewn siop deiliwr yn y 19eg ganrif, ond yna daeth ei chwmp: taith gyffrous mewn sawl ystyr.

**£8.99** 9781784611620


**Hughes, Sion**

**Llythrau yn y Llwhch**

Nofel iasoer wedi'i seilio ar stori wir sy'n datgelu tensiynau a hiliaeth adeg yr Ail Ryfel Byd. Nofel gyntaf yr awdur, a ddisgrifiwyd fel 'epig o nofel' gan feirniaid Gwobr Goffa Daniel Owen 2014.

**£7.95** 9781784610623





**Hughes, Sion**  
**Morffin a Mèl**  
 Nofel gyffrous wedi ei lleoli yn Llydaw, Paris a Chymru adeg yr Ail Ryfel Byd. Mae Ricard yn fiolinydd dawnus ond pan ddaw'r rhyfel caiff ei anfon i dref Vannes ar berwyl peryglus ar ran yr heddlu cudd. Stori apelgar, afaelgar.  
**£7.99** 9781784612542

**Hunter, Jerry**  
**Ebargofiant**  
 Nofel yn disgrifio byd yn y dyfodol pell ar ôl chwalfa gymdeithasol ac ecolegol: mae'r byd yn llwm ac mae bywyd yn anodd ac yn fyr. Nid oes bron neb yn y gymdeithas hon yn gallu ysgrifennu, ac felly mae hunangofiant y prif gymeriad yn cynnig cipolwg ar y prosesau sy'n dod gyda dechrau llythrennedd.  
**£7.95** 9781847718723

**Hunter, Jerry**  
**Y Fro Dywyll**  
 Nofel hanesyddol gyffrous sy'n symud o Gymru i feysydd y Rhyfeloedd Cartref yn Lloegr ac i goedwigoedd gogledd America. Gosodwyd ym merw un o'r cyfnodau mwyaf cythryblus yn hanes ynysoedd Prydain, yn wleidyddol ac yn grefyddol: epig o nofel.  
**£9.95** 9781784610098



**Jones, Bet**  
**Craciau**  
 Mae craciau'n ymledu o dan y ddaear ar ôl daeargryn ar Ynys Môn, yn sgil ffracio – ond mae yna graciau ym mywydau pobl ar yr wyneb hefyd. Nofel gyffrous, llawn digwyddiadau dramatig sy'n codi cwestiynau mawr gwleidyddol a phersonol.  
**Gwobr Goffa Daniel Owen 2013**  
**£8.95** 9781847717498

**Jones, Bet**  
**Y Nant**  
 Nofel dditectif wreiddiol, boblogaidd am lofruddiaeth yn Nant Gwrtheyrn yn ystod cwrs penwythnos lle mae saith o gymeriadau amrywiol yn dod i loywi eu Cymraeg...  
**£7.99** 9781784612597

**Jones, Eurwyn**  
**Y Cyloch Brith**  
 Addasiad Cymraeg o *The Speckled Band*, stori fer enwocaf Syr Arthur Conan Doyle am un o ddirgelion y dditectif enwog Sherlock Holmes.  
**£3.95** 9781847719546

**Jones, Ifan Morgan**  
**Dadeni**  
 Pan aiff lladrad yn Nhŵr Llundain o chwith, caiff archaeolegydd a'i fab eu galw i ddatrys yr achos. Ond mae'r hyn y maent yn ei ddarganfod yn eu gwthio i ganol rhyfel am einioes Cymru. Wrth i rymoedd tywyll fygwth Senedd Cymru, mae'r ddau'n wynebu ras yn erbyn amser...  
**£9.99** 9781784613990

**Jones, Ifan Morgan**  
**Yr Argraff Gyntaf**  
 Nofel dditectif wedi'i lleoli yng Nghaerdydd yn 1927 yn swyddfa papur newydd *Y Cronicl*. Yng nghanol y dirwasgiad, daw'r Brenin i Gaerdydd i agor yr Amgueddfa Genedlaethol – a dyma'r flwyddyn yr enillodd Caerdydd gwpan yr FA!  
**£7.95** 9781847712677

**Jones, Lloyd**  
**Y Dŵr**  
 Nofel ysgytwol wedi ei lleoli ar fferm anghysbell ar lan llyn yng ngogledd Cymru, lle mae teulu'n byw bywyd sylfaenol yn dilyn argyfwng byd-eang. Trodd Elin, y fam, ei chefn ar y byd, a heneiddio mae Yncl Wil ar glos crebachlyd y fferm. Ond dyw'r plant ddim eto wedi ildio i'r drychineb sy'n ynysu'r fferm...  
**£8.95** 9781847711335

**Lewis, Caryl**  
**Martha, Jac a Sianco**  
 Nofel gref, ddirdynnol yn adrodd hanes dau frawd a chwaer oedranus sy'n cael eu carcharu gan amgylchiadau teuluol, a chan galedi bywyd ar fferm yng nghefn gwlad de-orllewin Cymru.  
**Llyfr y Flwyddyn 2004**  
**£7.95** 9780862437534

**Lewis, Caryl**  
**Y Bwthyn**  
 Mae'r stori'n dechrau pan mae Owen yn dod i aros mewn bwthyn ar dir fferm fynyddig. Nofel delynegol, gynnil yn troi o gwmpas tri chymeriad – Enoch, Isaac ac Owen. Mae byd natur hefyd yn ganolog i'r digwyddiadau, sy'n aros yn y cof.

**Llyfr y Flwyddyn 2016**  
**£8.99** 9781784611637

**Lewis, Caryl**  
**Y Gwreiddyn**  
 Cyfrol o straeon byrion yn ymwneud â natur, perthynas dyn â'i gyd-ddyn, cariad a cholled. Fel y stori gyntaf, mae pob un yn ceisio mynd i'r afael â chnewyllyn y berthynas rhwng pobl.  
**£7.99** 9781784613167


Ifan Morgan Jones yn lansio *Dadeni* yn Palas Print



Caryl Lewis

**Lewis, Geraint**  
**Brodyr a Chwiorydd**  
 Straeon byrion cyfoes sy'n archwilio'r haen denau sy'n cadw cymdeithas yn wâr, yn arbennig y berthynas arbennig rhwng brodyr a chwiorydd.  
**£8.95** 9781847717504

**Lewis, Llŷr Gwyn**  
**Fabula**  
 Buenos Aires, Rhufain, Dylun, Barcelona, Kyoto, Aberystwyth a Bro Morgannwg: rhai o'r llefydd lle mae gwyfynod y gyfrol hon yn hedfan iddynt gan hofran yn y trwch adain gwybedyn sydd rhwng hanes a stori. Ym myd y fabula, gall ffuglen droi'n wirionedd, a ffaith yn freuddwyd.  
**£8.99** 9781784614010





## Lewis, Llŷr Gwyn Rhyw Flodau Rhyfel

Llyfr am hanes, rhyfel a theithio gan y bardd a'r darlithydd Llŷr Gwyn Lewis: plethiad hyfryd o ffaith a ffuglen sy'n gofyn cwestiynau am sut yr ydym ni'n coffáu. Trwy bytiau cofiannol, ysgrifau taith, ffotograffau, dyddiaduron, cofnodion a llenyddiaeth cawn gydgreded â'r awdur rhwng cwsg ac effro ar hyd llwybrau'r cof a'r dychymyg.

**£8.95** 9781847718815

## Lewis, Mared Rhwyg Dau Fyd

Nofel afaelgar yn troi o gwmpas Gwen a Rosa. Mae Gwen yn dechrau ar ei swydd gyntaf fel athrawes a Rosa wedi dod o'r Eidal i Gymru i redeg caffï ar ddiwedd yr ail ryfel byd. Mae datblygiad eu perthynas yn ganolbwynt i'r stori ond mae'r ddwy'n cuddio cyfrinachau sy'n cael eu datgelu'n raddol ac yn gelfydd.

**£8.95** 9781784611156

## Lisa, Mari Veritas

Ias, tensiwn a thwyll mewn nofel sy'n mynd ar antur garlamus ar draws Cymru ac yn ôl i'r gorffennol i ddatrys cyfrinachau dychrynlyd y presennol. Stori dda dda sy'n gorfodi'r darlennydd i droi'r tudalennau.

**Gwobr Goffa Daniel Owen 2015**

**£8.99** 9781784612023

## Llewelyn, Haf Mab y Cychwr

Dolgellau, 1603. Wedi blynyddoedd cythryblus mae Rhys ap Gruffydd wedi llwyddo i greu bywyd newydd tawel iddo'i hun fel cowmon y Nannau, ac mae yntau ac Wrsia, y weddw ifanc, yn deall ei gilydd. Ond mae'r drwgdeimlad rhwyg teuluoedd bonheddig y Nannau a'r Llwyn eisioes wedi hawlio un bywyd diniwed...

**£7.95**  
9781847714435

## Llewelyn, Haf Y Graig

Nofel wedi'i lleoli ar fferm Y Graig – fferm nodweddiadol Gymreig sy'n wynebu argyfwng wrth i'r genhedlaeth iau ddilyn eu cwys eu hunain. Chwip o gyfrol lawn tensiwn sy'n creu darlun gonest a phweros o gefn gwlad Cymru.

**£6.95** 9781847712172

## Llewelyn, Haf Y Traeth

Nofel wedi ei lleoli yn Sir Feirionnydd yn yr 17eg ganrif ac sy'n olrhain bywydau rhai o deuluoedd bonedd y cyfnod, yn arbennig y foneddiges Margaret Wynne a'i morwyn, Begw. Mae Margaret yn gorfod dioddef dirmyg ei theulu yng nghyfraith ac o'r herwydd mae'n cael pyliau dwys o iselder a hiraeth am ei merch fach a'i gŵr sy'n treulio'i amser yn Llundain.

**£8.99** 9781784612580

tudalen 13



## Llywelyn, Emyr (gol.) 20 Stori Fer: Cyfrol 1

Cyfrol o ugain stori fer gan awduron o Gymru a thu hwnt, gan gynnwys awduron profiadol a phoblogaidd megis Mihangel Morgan, Eigra Lewis Roberts, Kate Roberts, Manon Rhys, Sonia Edwards a Fflur Dafydd; cyfieithiadau o straeon gan Maupassant a Chekhov a stori newydd sbon gan Caryl Lewis.

**£6.95** 9781847711229

## Llywelyn, Emyr (gol.) 20 Stori Fer: Cyfrol 2

Ugain stori fer ar themâu fel cariad a chasineb, creulondeb, arswyd ac unigrwydd gan amrywiaeth o awduron profiadol megis Gwyn Thomas, Geraint Vaughan Jones, Eurig Wyn a Meleri Wyn James ac awduron ifainc fel Mared Llwyd a Gwenno Mair Davies.

**£9.99** 9781847711199

## Miall, Twm Cyw Haul

Dilêit Bleddyn yw llonyddwch, cwrw'r Chwain a chwmni'r hogia. Ond er bod 'na hwyl i'w chael, nid yw bywyd yn fêl i gyd mewn pentref gwledig ar ddechrau'r saithdegau ac mae gweision y Drefn yn benderfynol o'i rwystro rhag torri'n rhydd. Argraffiad newydd o'r nofel arloesol.

**£7.95** 9781847716262

## Miles, Gareth Cuddwas

Nofel gyffrous, wleidyddol am aelod o'r Gwasanaethau Cudd yn ymdreiddio fewn i fudiad gwleidyddol yng ngorllewin Cymru. Mae'n byw sawl bywyd ac yn guddwas meistrolgar, ond a fydd yn llwyddo i gadw ei fywydau gwahanol ar wahân, ac a fydd ei weithredoedd o'r gorffennol yn chwalu ei ddyfodol?

**£8.99** 9781784612054

## Morgan, Mihangel 60

Cyfrol newydd o ffuglen gan un o'n hawduron mwyaf gwreiddiol a disglair: i ddathlu cyrraedd ei benblwydd yn 60, dyma 60 o straeon byrion yn portreadu digwyddiadau cyfoes sy'n digwydd o fewn un awr mewn tref fechan yng Nghymru.

**£7.99** 9781784613983

## Morgan, Mihangel Dan Gadarn Goncrit

Nofel ddirgelwch wedi ei lleoli mewn tref brifysgol ac yn sylwebu ar berthynas pobl â'i gilydd ac ar fywyd cyfoes yn y Gymru Gymraeg. Trydedd nofel un o awduron mwyaf lliwgar a gwreiddiol Cymru heddiw.

**£7.95**  
9780862434946

## Morgan, Mihangel Kate Roberts a'r Ystlum, a dirgelion eraill

Sut fyddai Caradog Prichard yn ymdopi â cholli ei gof ar ôl ymddeol? Beth ddigwyddodd i Evan Roberts ar ôl i fwrlwm y Diwygiad ddod i ben? Beth allai fod wedi ysbrydoli Kate Roberts i feddwl am yr iaith Gymraeg fel ystlum mewn cerdd i'r *Faner*? Mae'r atebion yn y casgliad hwn o straeon gogleisiol a dyfeisgar.

**£7.95** 9781847714411

## Morgan, Mihangel Pantglas

Mae trigolion Pantglas yn wynebu newid byd wrth i'r gwaith mawr ar yr argae ddigwydd o'u cwmpas. Symud fydd raid, ond cyn hynny bydd llawer o ddŵr wedi mynd dan bont eu bywydau. Nofel egniol sy'n defnyddio peth o hanes Llanwddyn a Llyn Efyrynwy fel ysbrydoliaeth i ddychymyg byrlymus Mihangel Morgan.

**£8.95** 9781847713186

## Owen, Llwyd Ffawd, Cywilydd a Chelwyddau

Nofel feiddgar sy'n sôn am brofiadau ysgytwol a dialgar enaid ifanc a beiddgar sy'n garcharor i lygredd byd y cyfryngau. Gan 'athrylith pennaf' beirniaid gwobr Daniel Owen.

**Gwobr Goffa Daniel Owen 2005**

**£7.95** 9780862438609

## Owen, Llwyd Ffydd Gobaith Cariad

Nofel rymus sy'n llawn troeon annisgwyl. Mae'r stori yn troi o gwmpas Alun Brady, dyn sydd wedi byw bywyd tawel a chysgodol yng nghartref crand ei rieni yng Nghaerdydd. Ond pan ddaw ei dad-cu drygionus i fyw ac i farw gyda'r teulu, daw newidiadau enfawr i fywyd Alun – a llu o gymeriadau lliwgar.


**£7.95** 9780862439392

## Owen, Llwyd Heulfan

Yn y dyfodol agos mewn gwlad debyg iawn i'r Gymru gyfoes, mae lladron meistrolgar yn dwyn o dan drwynau crachach Gerddi Hwyan, gan gythruddo a drysu Aled Colwyn a Richard King, y ditectifs sydd ar eu trywydd. A fydd dihiryn go iawn y nofel yn cael ei haeddiant?

**£8.95** 9781847715142

Lansio *Cuddwas*, nofel Gareth Miles





## Taffia

Mae'r Ditectif Danny Finch yn colli ei swydd ar ôl cael ei gyhuddo o dwyll, gan golli popeth – ei swydd, ei benswn a'i hunan-barch. Caiff waith fel swyddog diogelwch i Pete Gibson, 'dyn busnes' lleol. Mae Danny'n cau ei lygaid i fusnes anghyfreithlon ei fôs ac, yn ffôl iawn, yn gwrthod cynnig i fod yn rhan ohono...

**£8.99**  
9781784612498

## Owen, Llwyd

### Un Ddinas, Dau Fyd

Nofel am y ddwy Gaerdydd: islaw'r byd dosbarth canol sidet llygredig mae yna is-fyd, byd o anobaith sy'n anodd iawn dod allan ohono. Pumed nofel yr awdur, a dilyniant carlamus i'w nofel gyntaf enwog, *Ffawd*, *Cywilydd a Chelwyddau*.

**£8.95** 9781847713223

## Owen, Llwyd

### Y Ddyled

Nofel am hanes hunllefus y Llwyd Owen arall – Floyd Ewens, awdur enwog yn ei 40au hwyr sydd wedi troi ei gefn ar Gymru a blasu llwyddiant llenyddol anferthol yn yr Amerig a gweddill y byd. Ond mae hen gysylltiadau yn bygwth tansilio'r llwyddiant annisgwyl...

**£8.95** 9781847719874

## Pritchard, Caradog



### Un Nos Ola Leuad

Argraffiad newydd o glasu'r Caradog Prichard am blentynod cythryblus mewn pentref chwarelyddol yn Nyffryn Ogwen; cyhoeddwyd gyntaf yn 1961.

**£7.95**  
9781847710642

### Prysor, Dewi Cig a Gwaed

Mae sgerbydau teuluol

fel arfer yn cael eu cadw yn y cwpwrdd, ond mae sgerbw'd teulu'r Bartis a'i draed yn rhydd. Dyw aduniad teuluol, felly, ddim yn rhan o gynlluniau Mani – ar hyn o bryd... nofel gignoeth sy'n gofyn ydi gwaed yn dewach na dŵr.

**£9.95** 9781847715159

## Prysor, Dewi

### Lladd Duw

Nofel swmpus, uchelgeisiol, ysgytwl wedi'i lleoli yn Llundain a thref glan y môr ddychmygol. Mae'n ymdrin â chwalfa gwareddiad o safbwynt y werin bobl. Nofel ddwys-dwyll ond â dogn da o hwmor nodweddiadol yr awdur.

**£9.95** 9781847712820

## Prysor, Dewi Rifiera Reu

Grŵp o 'misfits methianus' canol oed, alcoholaidd a chyffuraidd yw Bitrwt, Lemsip, Math, Tongs, Rob-di-reu a'u cyfeillion. Mae darganfod jiwcbocs ar ei ffordd i ddifancoll yn ennyn hiraeth ynddyn nhw am yr hen ddyddiau. I ble'r aeth yr holl

rêfs a'r partiön gwyllt? Mewn dim ond pum diwrnod, mae'r freuddwyd yn fyw mewn noson fythgofiadwy ar y traeth...

**£9.99** 9781784610401




## Richards, Ruth

### Pantywennol

Nofel hanesyddol afaelgar a chredadwy yn seiliedig ar hanes Elin Ivans o Fynytho. Fe'i galwyd yn Fwgan Pantywennol, gan i'w direidi a'i hawydd i rwygo dillad arwain at obsesiwn gyda'r goruwchnaturiol. Nawr yn ei henaint, mae Elin yn edrych yn ôl ar fywyd a ddrylliwyd yn sgil castiau ei phlentynnod.

**£7.99**  
9781784613532



## Roberts, John Gabriela

Nofel seicolegol gyfoes, gref am fenyw ifanc drawiadol o Frasil sy'n dilyn ôl traed ei mam ar bererindod i Santiago de Compostela yn Sbaen. Y tu ôl i stori sy'n llawn prydfferthwch a thynnerwch mae yna ryweth drwg yn cuddio. Mae'n union fel cnoi afal melys a chanfod calon bydreidig...

**£8.95** 9781847716989



## Roberts, Lleucu Jwg ar Seld

Straeon byrion cyfoes a deifiol sy'n darlunio'r gwrthdaro rhwng y Cymry academaidd a'r werin, rhwng gogledd a de, rhwng iaith a hunanlywodraeth, a rhwng y cenedlaethau.


**£7.99** 9781784613334

## Roberts, Lleucu Rhwng Edafedd

Mae Eifion ar fin neidio oddi ar Bont y Borth. Mae'n dyheu am ddihangfa rhag bywyd llawn methiant – yn ei briodas, ei fusnes ac yn ei berthynas â'i deulu. Ond ar y foment dyngedfennol, ac yntau ar fin cymryd y cam olaf i'r dŵch mawr, daw Dewi i darfu ar ei gynlluniau...

**Gwobr Goffa Daniel Owen 2014**

**£8.95** 9781784610036



## Roberts, Lleucu

### Rhyw Fath o Ynfytyn

Nofel am wallgofrwydd cariad sy'n amlygu ei hun drwy'r amser yn ein perthynas â'n gilydd. Mae Efa mewn brwydr barhaol â'i merch 15 oed, Ceri. Cenedlaetholwraig wyllt ei natur, lem ei thafod yw Efa, a thân ar ei chroen yw cariad newydd ei merch.

**£7.95** 9781847713742

## Roberts, Lleucu

### Saith Oes Efa

Saith stori am y saith oes mewn bywyd merch, i gyd mewn cyweiriau a thafodieithoedd gwahanol. Yn ôl John Rowlands, un o feirniaid y Fedal Ryddiaith, 'un o gyfrolau mwyaf gwreiddiol y Gymraeg ar hyd yr oesoedd.'

**Medal Ryddiaith 2014**

**£7.95** 9781784610029

## Roberts, Lleucu

### Teulu

Triogl cariad tanbaid sydd wrth wraidd y nofel hon a leolwyd yn ardal Aberaeron. Stori sy'n mynd i ddechreuadau perthynas Margaret a Dr John, a'r tro cyntaf i Richard ddod ar eu traws: dyma rai o gymeriadau poblogaidd y ddrama *Teulu* ar S4C mewn nofel sy'n addas i bawb.

**£8.95** 9781847715197

## Ros, Manon Steffan

### Blasu

'Ai gwallgofrwydd oedd o, cymylau henaint yn tynnu pethau ddoe yn ddigon agos i'w cyffwrdd, i'w harogli, i'w blasu?' Wrth edrych yn ôl ar ei bywyd, a'r teulu a'r ffrindiau a fu'n gwmmi iddi ar hyd y daith, daw blasau o'r gorffennol i brocio atgofion Pegi. Ond nid yw pob atgof yn felys, ac mae rhai cyfrinachau'n gadael blas chwerw.

**£8.95** 9781847713827





Manon Steffan Ros

**Ros, Manon Steffan**  
**Fel Aderyn**

Nofel sy'n dilyn hynt a helynt Mina a'i theulu yn ystod yr 20fed ganrif. Cawn hanes ei mam a'r modd y colodd ei gŵr yn yr Ail Ryfel Byd. Cawn hefyd stori Sybil, sy'n beichiogi yn dilyn perthynas gydag athro, yn ogystal â Leusa, merch i bysgotwr, a gafodd ei chamdrin gan ei thad. Nofel gofiadwy wedi'i lleoli yn ardal Tywyn/Aberdyfi.

**£8.95** 9781847719041

**Ros, Manon Steffan**  
**Llanw**


Mae Llanw yn byw mewn tŷ ar y traeth gyda Gorwel, ei hefaill, a'u nain. Mae chwedlau yn ffordd o fyw i'r ferch freuddwydiol hon. Ond mae'r Ail Ryfel Byd yn taflu ei gysgodion... nofel arall eithriadol gan awdures *Blasu*.

**£8.95** 9781847719232

**Wiliam, Sioned**  
**Chwynnu**

Ail nofel yr awdures Sioned Wiliam, sy'n enw cyfarwydd ym myd comedi teledu ynysoedd Prydain: nofel llawn hiwmor yn dilyn poblogrwydd *Dal i Fynd* – sydd yn cael ei datblygu'n gyfres deledu.


**£8.99**  
9781784611804



**Wiliam, Sioned**  
**Dal i Fynd**

Nofel ddifyr a doniol iawn sy'n dilyn tair menyw yn ystod blwyddyn anturus yn eu bywydau. Yng ngeiriau Bethan Gwanas: 'Tonic o nofel! Wedi chwervthin yn uchel ond yn agos at ddagrau weithiau hefyd.'


**£8.95** 9781847717177



**Williams, Gareth F**  
**Awst yn Anogia**

Nofel gref, swmpus wedi'i lleoli ar ynys Creta adeg yr Ail Ryfel Byd. Mae'r Almaenwyr, sydd mewn grym ar yr ynys, yn dial yn greulon am herwgipio'r Cadfridog Kreipe ac mae'r andartes, y rebels lleol, yn galw am gymorth rhai o filwyr y Special Operations Executive o Brydain. Nofel am deyrngarwch a thensiynau croes...

**Llyfr y Flwyddyn 2015**  
**£14.99** 9781784613778



**Williams, Gareth F**  
**Y Tŷ Ger y Traeth**

Nofel grefftus am wrthdaro a'r bwlch rhwng y cenedlaethau. Mae gan Sara broblemau emosynol ac mae'n dianc o gartref ei rhieni yng Nghaerdydd at ei thaid – hen hipi sy'n byw ger y traeth ym Morfa Bychan. Yn y canol mae'r fam a'i gŵr, y genhedlaeth ganol na wyr sut i ddelio â dyheadau Sara na'r hipi geriatrig...

**£8.95** 9781847714350

**Wyn, Eirug**  
**I Ble'r Aeth Haul y Bore?**


Nofel hanesyddol gignoeth a gafaelgar am ddiodeffaint Indiaid y Navahos dan law'r dyn gwyn yn ystod y Rhyfel Cartref yn yr Amerig yn yr 19eg ganrif.

**£6.95** 9780862434359

Lansio un o nofelau Mihangel Morgan yn yr Hen Goleg, Aberystwyth







**Aaron, Wil**  
**Poeri i Lygad yr Eliffant**

Pwy oedd y 5,000 o arloeswyr o Gymru a deithiodd i'r Gorllewin Gwyllt yn y 19eg ganrif? Am y tro cyntaf, cawn ymuno â siwrne gyffrous y Mormoniaid Cymreig a groesodd y paith a'r Rockies i Ddinas y Llyn Halen gyda wageni ag ychen.


Fel pob stori antur dda, mae yna ddewrder ac ofn, cynnwrf a thorcalon ar hyd y daith. 70 llun.

**£14.99** 9781784612719

**Davies, Eirug**  
**Y Winllan Well: America'r Cymry**

Cyfrwl am hanes y Cymry yn teithio i America ac yn ymfydlu yno. Trafodir hanes y Crynwyr ym Mhennsylvania, rôl y Cymry yn ystod y Chwyldro Americanaidd, y Cymry yn Efrog Newydd a dylanwad yr eisteddfodau.

**£14.95**  
9781784611347



**Davies, R R**  
**Owain Glyndŵr: Trwy Ras Duw, Tywys Cymru**

Astudiaeth feistrolgar o safle Owain Glyndŵr fel gwladweinydd uchelgeisiol ac arwr cenedlaethol, ynghyd â'i gyfraniad i wledyddiaeth Cymru ar droad y 15fed ganrif.

Heini Gruffudd, awdur *Yr Erlid*



Lansio *Merched y Wawr* yn swyddfa'r mudiad (sydd fel Y Lolfa, yn 50 oed eleni) yn Aberystwyth

gan awdurdod ar y pwnc; ffotograffau a mapiau.

**£6.95** 9780862436254

**George, Eirwyl**  
**Cynnal y Fflam – Golwg ar Annibynwyr Sir Benfro**

Cyfrwl amrywiol sy'n bwrw golwg dros rai o weithgareddau Annibynwyr Sir Benfro, ac yn cynnwys portreadau o gyn-lywyddion yr Undeb, y prifeirdd, y cantorion, y cyfansoddwyr tonau a'r awduron nodedig. Cynhwysir nifer o gerddi ac emynau, pigion o anerchiadau, atgofion, hanesion, ysgrifau comisiwn a llawer mwy.

**£6.95** 9781847714718

**Griffith, T Ceiri**  
**Achau rhai o Deuluoedd Hen Siroedd Caernarfon, Meirionnydd a Threfaldwyn**

Rhestr gynhwysfawr o achau teuluoedd o ardaloedd sy'n ymestyn o Ben Llŷn, trwy Feirionnydd i Sir Drefaldwyn, gyda mynegai trylwyr, tablau a mapiau.

**£24.95** 9781847714930

**Gruffudd, Heini**  
**Yr Erlid**

Hanes Kate Bosse-Griffiths a'i theulu cyn, ac yn ystod, yr Ail Ryfel Byd, gyda sylw i effeithiau polisi hil-laddiad y Natsïaid arni hi a'r teulu. Mae'n hanes ysgytwl a dirdynnol sy'n cynnwys llofruddiaeth ei mam, hunanladdiad ei modryb, diswyddiad ei thad oedd yn llawfeddyg llwyddiannus, ac erlid aelodau'r teulu i wledydd fel China a Sweden.

**Llyfr y Flwyddyn 2013**  
**£12.95** 9781847714312

**Gwynnaf, Robin**  
**Cofio Hedd Wyn: Atgofion Cyfeillion a Detholiad o'i Gerddi**

Am y tro cyntaf, mae un o gyfeillion a chyd-filwyr Hedd Wyn yn rhannu ei atgofion o'r bardd ifanc ei hun. Y milwr hwn oedd Simon Jones, Cwm Cynllwyd a cheir ei atgofion trwy gyfrwng cyfweiliad a gynhaliwyd gan yr awdur, sydd yn awdurdod ar ddiwylliant gwerin Cymru.

**£14.99 (clawr caled)** 9781784614348

**Hughes, T Meirion**  
**Hanesion Tre'r Cofis**

Cyfrwl lawn ysgrifau a lluniau difyr am hanes Caernarfon a'i phobl, sy'n cynnig blas o'r hyn mae darllenwyr Papur Dre wedi'i brofi dros y degawd diwethaf wrth ddarllen erthyglau cartrefol yr awdur.

**£9.95** 9781847716736

**James, Meleri Wyn (gol.)**  
**Merched y Wawr**

Hanes difyr, dwys a doniol mudiad Cymraeg ei iaith sydd â 280 o ganghennau a 7,000 o aelodau. Dyma gofnod fudiad sydd wedi cynnig cyfleoedd i fenywod gymdeithasu, arfer doniau, ymgyrchu a chodi arian i achosion da.

**£9.95** 9781847714497

**Jenkins, Gwyn**  
**Cymry'r Rhyfel Byd Cyntaf**

Cyfrwl ddarluniadol, gynhwysfawr yn adrodd hanes profiadau dros 170 o Gymry o bob rhan o'r wlad yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf, yn filwyr, morwyr, nysrys, merched y ffatrioedd arfau, heddychwyr a llawer mwy.

**£19.95 £9.95 (clawr caled)**  
9781847718785

**Jenkins, Gwyn (gol.)**  
**Llyfr y Ganrif**


Cofnod darluniadol, eiconig yn cofnodi'r 20fed ganrif yng Nghymru, yn seiliedig ar waith ymchwil yng nghasgliadau Llyfrgell Genedlaethol Cymru a'r *Western Mail*; dros 500 o ddarluniau du-a-gwyn a chartwnau a bron i 100 o ddarluniau lliw.

**£29.95 £14.95 (clawr caled)**  
9780862435042

**Johnson, Diarmuid & Reid, Amanda**  
**Tro ar Fyd**

Casgliad o ysgrifau bywiog sy'n darlunio bywyd bob dydd yn nwyrain Ewrop a'r gwledydd Arabaidd rhwng chwyldro 1989, pan chwalwyd y drefn gomiwnyddol, a 2012, pan heriwyd unbenaidd y gwledydd Arabaidd.

**£9.95** 9781847716514







Gwyn Jenkins, awdur *Cymru'r Rhifol Byd Cyntaf*, gyda Daniel Huws – y ddau yn gyn-geidwaid llawysgrifau yn y Llyfrgell Genedlaethol


**Morgan, Gerald**  
**Ar Drywydd Dewi Sant**

Dyma grynhoi bywyd, traddodiadau a chwedloniaeth Dewi mewn un gyfrol hylaw – yr unig un o'i bath. Wrth ateb y cwestiynau pwy oedd y Dewi go iawn, a beth wnaeth e, cawn gip ar ffigwr diddorol a chymhleth.  
**£5.99** 9781784612559

**O'Brien, Keith (gol.)**  
**Traws-olwg: Trawsfynydd a'r Ardal fel y Bu**

Llyfr bwrdd coffi llawn lluniau a chapsiynau dwyieithog am hanes bro Trawsfynydd i gofio canmlwyddiant marwolaeth Heddd Wyn ac Eisteddfod y Gadair Ddu; gyda chyflwyniad gan y llenor Dewi Prysor sydd hefyd yn frodor o'r ardal.

**£9.99** 9781784614676



**Owen, Huw**  
**Hanes Cymoedd y Gwendraeth / History of the Gwendraeth Valleys**

Cyfrwl sy'n trafod cefndir ardal allweddol yn hanes diweddar Cymru yn ogystal â'r ymdrechion i ddiogelu'r diwylliant lleol a'r iaith Gymraeg, er gwaethaf newidiadau yn yr economi lleol, a bygythiadau allanol.

**£5.95** 9781847719003

**Rees, W M**  
**Sefyll yn y Bwlch – Brwydr Llangyndeyrn 1960-1965**

Dyma'r gyfrol gyntaf gynhwysfawr i adrodd hanes brwydr a ddisgrifiodd Gwynfor Evans fel 'un o'r penodau disgleiriaf yn hanes diweddar Cymru'; stori arwrol a dramatig brwydr Llangyndeyrn a Chwm Gwendraeth Fach yn erbyn corfforaeth bwerus oedd am archwilio'u tiroedd a boddi'r cwm.

**£9.95** 9781847717375

**Richards, Emlyn**  
**Ffarmwrs Môn 1800-1914**

Cyfrwl gynhwysfawr am amaethwyr Môn gan yr awdur poblogaidd ac adnabyddus, Emlyn Richards. Ceir hanes trylwyr amaethyddiaeth ym Môn o'r landlordiaid i'r tenantiaid, y gweision a'r morynion.

**£12.95**  
9781847716705

**Roberts, Emrys**  
**Ein Stori Ni**

Os ydych chi am wybod mwy am gyfraniad anferthol ein cenedl fach ni i'r byd, dyma'r llyfr i chi!

**£3.99**  
9781784613969

**Vittle, Arwel**  
**Cythral o Dân**

Cyfrwl yn adrodd hanes digwyddiadau cyffrous llosgi'r Ysgol Fomio yn Mhenyberth ar 8 Medi 1936, a charcharu Saunders Lewis, D J Williams a Lewis Valentine. Mae'r awdur yn awdurdod ar Lewis Valentine – cyrhaeddodd ei gyfrol *Valentine* restr hir Llyfr y Flwyddyn. Rhagair gan Dafydd Wigley.

**£7.95** 9781847713926

**Vittle, Arwel (gol.)**  
**I'r Gad – Hanner Canrif o Brotestio dros y Gymraeg**

Lluniau a geiriau sy'n olrhain hanes protest yng Nghymru dros y degawdau diwethaf: Casgliad gwPeledol drawiadol yn dangos

gweithiau gan rai o ffotograffwyr gorau Cymru gan gynnwys Geoff Charles, Ray Daniel, Jeff Morgan a Marian Delyth.


**£29.95 (clawr caled) / £19.95 (clawr meddal)**

9781847717184 / 9781847718150

**Vittle, Arwel (gol.)**  
**Llyfr Mawr LOL: Hanner Canrif o Hiwmor, Enllib a Rhyw**

Llyfr swmpus, fformat mawr, llawn lliw i ddathlu 50 mlynedd ers sefydlu'r cylchgrawn *Lol*. Cartwnau, lluniau, straeon, atgofion a sylwebaeth fesul blwyddyn ar hynt y cylchgrawn ei hun a helyntion y byd mawr y tu allan.

**£14.99**  
781784611675



**Williams, Anne Elizabeth**  
**Meddyginiaethau Gwerin Cymru**

Cyfrwl hynod ddfifyr yn cynnwys gwybodaeth gynhwysfawr am feddyginiaethau gwerin, sy'n ffrwyth llawer o ymchwil fanwl ym mhob ardal yng Nghymru.

**£19.99** 9781784614256

**Williams, Gruffydd Aled**  
**Dyddiau Olaf Owain Glyndŵr**

Yn sgîl chwechanmlwyddiant marw Owain Glyndŵr, dyma astudiaeth o'r traddodiadau a

ddatblygodd ynghylch ei ddyddiau olaf, man ei farwolaeth a manau posib ei gladdu. Mae'r gyfrol yn edrych o'r newydd ar yr honiadau, gan seilio'i chasgliadau ar ymchwil mewn llawysgrifau ac ar lawr gwlad.

**£9.99**  
9781784611569



*I'r Gad – Hanner Canrif o Brotestio dros y Gymraeg*



Cyfres o gyfrolau byrion, rhad, hawdd i'w darllen, hawdd i'w mwynhau!

### Davies, Aled Sion Aled a'r Fedal Aur

Stori'r Pencampwr Paralympaidd, Aled Sion Davies. Enillodd fedal aur am daflu'r ddisgen a medal efydd am daflu'r siot yng Ngemau Paralympaidd Llundain 2012. Yn 21 mlwydd oed roedd yn un o'r athletwyr ieuengaf yn nhîm Prydain ac yn un o'r rhai mwyaf llwyddiannus.

£1.00 9781847718389

### Davies, Jonathan Foxy'r Llew

Cyfrwl yn dilyn hanes bywyd a gyrfa y chwaraewr rygbi poblogaidd Jonathan Davies, canolwr Cymru a'r Llewod, a enillodd bron i 40 cap i'w wlad. Dewiswyd i chwarae i dîm y Llewod ar eu taith i Awstralia yn 2013.

£1.00 9781847718365

### Ebenezer, Dylan Gorau Chwarae Cydchwarae

Cyffro gêmâu tîm pêl-droed Cymru wrth iddyn nhw ennill eu lle yn Ewro 2016 gyda rhestr ddwyieithog o dermau pêl-droed.

£1.00 9781784612481

### Edwards, John Meurig Cymry Mentrus


Hanes rhai o anturiaethwyr mwyaf mentrus Cymru heddiw a ddoe, fel Owen Glynn Jones, Richard Parks ac Eric Jones, y dringwyr; Robin Jac rasys TT; Tom Pryce a enillodd ras Formula 1 a merched dewr fel Lowri Morgan ac Elin Haf Davies.

£1.99 9781847716347

### Evans, Geraint Y Gosb

Pan gaiff Erin ei threisio mae'n benderfynol o ddod o hyd i'r treisiwr a'i gosbi. Ond mae'n gwneud un camgymeriad. Nofel dditectif fer, gyffrous.

£1.00 9781784612474



### Gibbard, Alun Gareth Jones: Y Dyn oedd yn Gwybod Gormod

Stori'r newyddiadurwr rhyfeddol o'r Bari, Gareth Jones. Daeth yn enwog fel newyddiadurwr a ddatgelodd y newyn yn yr Iwcrain yn y tridegau. Bu farw yn 30 mlwydd oed dan amgylchiadau amheus yn y Dwyrain Pell.

£1.00 9781847718372

### Gwanas, Bethan Bryn y Crogwr

Nofel arswyd am goediwr (*tree surgeon*) sy'n cael profiadau rhyfedd wrth drin hen dderwen sydd â hanes yn mynd 'nôl i wrthryfel Owain Glyndŵr.

£1.00 9781784611149

### Hamilton, Courtenay Tu ôl i'r Tiara: Bywyd Miss Cymru

Dyma lyfr sy'n dilyn gyrfa Miss Cymru 2010, Courtenay Hamilton o Lanilltud Fawr. Cawn gipolwg y tu ôl i'r llenni ar gystadleuaeth Miss World yn Tsieina, sut y bu wrthi'n ddfilino yn codi arian ac yn helpu elusennau – a dilyn gyrfa gerddorol.

£1.99 9781847714091

### James, Siân & Gibbard, Alun O'r Llinell Biced i San Steffan

30 mlynedd yn ôl chwaraeodd Siân rôl allweddol yn Streic y Glowyr pan oedd yn gyfrifol am redeg canolfannau bwydo'r streicwyr a'u teuluoedd. Yn 2005 cafodd ei hethol fel A.S. yn cynrychioli Dwyrain Abertawe, ac mae'n ffigwr amlwg yn y ffilm ddiweddar *Pride*.

£1.00 9781784611132

### Jenkins, Geraint H Yr Elyrch: Dathlu'r 100

Hanes rhyfeddol clwb pêl-droed Abertawe, a'i daith anhygoel i'r Uwch Gynghair; llyfr yn canolbwyntio'n bennaf ar dymor llwyddiannus 2010–11 gan awdur sy'n gefnogwr triw i'r clwb.


£1.99 9781847714084

### Jenkins, Gwyn & Jones, Gareth William

Cymru a'r Rhyfel Byd Cyntaf

Hanes rhai o'r Cymry yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf gan ddilyn hynt y rhyfel yn gronolegol.

£1.00 9781784611118



### Jones, Eilir Meddyliau Eilir

Yn dilyn llwyddiant *Dyddiadur Ffarmwr Ffowc a Ffowc o Flwyddyn*, mae'r digrifwr Eilir Jones wedi bod yn hel meddyliau ac wedi sylweddoli ei fod yn byw ar blaned sy'n llawn o bobl wallgo.

£1.99 9781847716354

### North, George George North

Hanes cyffrous y chwaraewr rygbi dawnus o Sir Fôn, George North: ei atgofion, ei gêmâu cofiadwy a'r bobl a gafodd ddylanwad arno.

£1.99 9781847716361

### Roberts, Lleucu Oswald

Stori fer, llawn hiwmor am Oswald, cyn-newyddiadurwr a fu'n ysgrifennu teyrngedau i'r ymadawedig. Cafodd y sac o'i swydd wedi iddo lunio teyrnged i gariad ei fam a hwnnw'n dal ar dir y byw, ond mae'n parhau i fynychu angladdau ac yn nodi pob manylyn yn ei lyfr bach coch...

£1.00 9781847718358

### Ros, Manon Steffan Hunllef

Nofel ddirgelwch, lawn tensiwn am ddyn ifanc yn symud tŷ ar ôl gwahanu oddi wrth ei wraig ac yn methu'n lân â deall yr hunllefau a gaiff yn ei gartref newydd, tan iddo ddod ar draws hen ddynes enigmatig...

£1.99 9781847714077

### Ros, Manon Steffan Inc

Lluniau ar groen, dyna'r cyfan ydi tatŵs. Ond i'r rhai sy'n dod i stiwdio tatŵs Ows

– ac i Ows ei hunan – maen nhw'n symbol o rywbeth dyfnach nag addurn o inc ar eu cyrff yn unig. Mae gan bawb ei reswm dros gael tatŵ, a gall hwnnw fod yn un annisgwyl weithiau...

£1.99 9781847716330

### Ros, Manon Steffan Y Stelciwr

Nofel lawn tensiwn o'r dechrau i'r diwedd. Mae Einir yn cwrdd â chymar delfrydol ar y we, heb sylweddoli bod hwnnw'n byw ar yr un stryd â hi: mae'n cael ei rhwydo a'i thwylo gan Y Stelciwr.

£1.00 9781784613785

### Stead, Phil Ar Dy Feic


Profiadau Cymro yn beicio rownd Cymru a Ffrainc mewn llyfr sydd hefyd yn rhoi cyflwyniad cyffredinol i'r maes. Mae'n ysgrifennu am ei salwch a sut mae beicio wedi ei helpu.

£1.00 9781784611125

### Williams, Owain Fôn Rhwng y Pyst

Aelod o garfan pêl-droed Cymru sy'n rhoi cip y tu ôl i'r llenni yn ystod cyfnod y tîm llwyddiannus yn Ffrainc yng nghystadleuaeth Ewro 2016. Ond mae mwy i'r golwr o Ben-y-groes na pêl-droed – mae'n gerddor ac yn artist, ac yn Gymro i'r carn.

£1.00 9781784613792





## DYDDIADURON

### DYDDIADUR ADDYSG A5 2018

Dyddiadur dwyieithog 17 mis, Awst 2017–Rhagfyr 2018. Maint A5, yn cynnwys blwyddiadur, amserlenni, tudalennau nodiadau a rhestr gynhwysfawr o sefydliadau Cymreig.

£5.99 9781784614683

### DYDDIADUR POCED 2018

Tudalen i bob wythnos; rhestr gynhwysfawr o sefydliadau Cymreig a dyddiadau gwyliau a digwyddiadau Cymreig.

£4.99 9781784614690

### DYDDIADUR DESG 2018

Dyddiadur dwyieithog, A4, dwy dudalen i'r wythnos, gyda blwyddiadur 2018, a chyfeiriadur cynhwysfawr o sefydliadau Cymreig.

£7.99 9781784614706

### DYDDIADUR AMAETH 2018 / AGRICULTURAL DIARY

Dyddiadur amaeth dwyieithog maint A4: dwy dudalen i'r wythnos, blwyddiadur 2018, tudalennau nodiadau, ynghyd â chyfeiriadur cynhwysfawr i sefydliadau Cymru.

£7.99 9781784614713

### FFEILOFFAITH 2018 FILOFAX

Ffeiloffaith Cymraeg wythnos-i-ddwy-dudalen, gyda chyfeiriadur cynhwysfawr o sefydliadau Cymru, a dyddiadau gwyliau a digwyddiadau Cymreig.

£6.99 9781784614720

### CYFEIRIADOL

#### Y Llyfr Cyfeiriadau / Address Book

Llyfr cyfeiriadau a rhifau ffôn hylaw maint 15x19cm. A handy 15x19cm size book for addresses and phone numbers.

£6.95 978086243588Z

### Llyfr Ymwelwyr / Visitors' Book

Llyfr ymwelwyr deniadol at ddefnydd capeli ac eglwysi, amgueddfeydd ac adeiladau hanesyddol a chanolfannau i ymwelwyr, gyda lle i nodi enwau, cyfeiriadau a sylwadau. / An attractively bound book for the use of chapels and churches, museums and tourist attractions, with space for visitors' names, addresses and comments.

£19.95 (claw caled / hardback)

9780862435493

### Y Llyfr Pen-blwyddi / The Welsh Birthday Book

Cadwch eich dyddiadau pen-blwydd yma; gyda lluniau lliw a ffeithiau hanesyddol ar gyfer pob dydd o'r flwyddyn. / Keep your birthday dates here! Includes colour photos and historical facts for every day of the year.

£9.95 9780862436476

### POSTERI

#### Evans, Dafydd Poster Y Blew

Poster o 1967 yn hyrwyddo Maes B, record sengl Y Blew, y grŵp trydanol cyntaf i ganu yn Gymraeg (A2).

tudalen 19

/ The 1967 poster promoting Maes B, a single by Y Blew, the first Welsh-language rock band (A2).

£4.99 9781784614379

#### Ioan, Elwyn Poster Gwnewch Bopeth yn Gymraeg

£6.95 9781847717511

#### Jones, Margaret Poster y Mabinogion / Mabinogion Poster

Map o Gymru wedi ei seilio ar chwedlau'r Mabinogi (A2) / Poster of Wales based on the tales of the Mabinogi.

£4.95 2341234244

Am bosteri eraill, ewch i wefan Y Lolfa.

#### 100 o Sticeri Cymraeg!

Sticeri 'Cymraeg!' newydd sbon i'w sticio dros bopeth Saesneg.

All-purpose, all-weather 'Cymraeg!' stickers.

£3.00 9781784613068

#### Sticeri Draig Goch / Red Dragon Stickers

Sticeri Draig Goch i'w gosod ar drwydded yrriu; pecyn o 6. / Pack of 6 Red Dragon stickers for putting on your driving licence.

£2.00 9781784612566

#### MYG PEN-BLWYDD Y LOLFA

£10 (llun ar dud.2 yr ochr Saesneg)

### CRYSAU T OEDOLION

#### Dewin Dwl

bach, canolig, mawr (dynion); gwyrdd

£15.00

#### Cena Cnoi

bach, canolig, mawr (dynion); coch

£15.00

#### Rwdlan

canolig, mawr (merched); llwyd

£15.00

Am grysau-T a hwdis i blant, gweler adran Rwdlan

### GÊM

#### Gair Am Air

Argraffiad newydd o'r gêm eiriau boblogaidd sy'n addas ar gyfer pob lefel – yn ddisgyblion ysgol, dysgwyr a phawb sy'n hoffi gêm dda.

£9.99 9781784612313


Gêm y Steddfod hefyd ar gael – ewch i'n gwefan.

### LLYFR!

#### Annibyniaeth yn dy Boced

Cymorth i feddwl tu fas i focs gwleidyddiaeth Llundain: dyma'r dyfodol.

£5 9781784614744





# Alun yr Arth

**MORGAN TOMOS**

*Cyfes boblogaidd i blant bach am arth fach ddrygionus*

**£2.95 yr un**

**1 Alun yr Arth a'r Iâr Fach yr Haf**

9780862435691

**2 Alun yr Arth a Sbectol ei Dad**

9780862436575

**3 Alun yr Arth a'r Dyn Eira**

9780862436582

